# YR YMOFYNYDD.

Rhif 36.] AWST, 1850. [Cyf. III.

"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

"Mewn Cyhoeddiad a broffesa fod yn rhydd ni ellir disgwyl i ni fod yn atebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr."—Gol.

## "YMWNEUTHUR YN BOB PETH I BAWB."—(1 Cor. ix. 22.)

Gellir cymeryd yr hyn a ganlyn fel parhâd o'r sylwadau ar hunan-ymwadiad yn Rhifyn Mehefin. Y mae yr un egwyddor i'w chanfod yn amrywiol ganghenau dyledswydd Gristnogol. Diau fod yr Apostol Paul yn "ymwadu âg ef ei hun," pan yr oedd "yn ymwneuthur yn bob peth i bawb, fel y gallai yn hollol gadw rhai." Cyrchu at y nôd, oedd yr Apostol yn ei wneud—"y nôd o gamp uchel" a ddangoswyd gan yr Athraw mawr yn ei ddysgeidiaeth a thrwy ei esiampl. Nid yn fwriadol braidd, o leiaf nid mewn ymffrost, ond mewn hunan-ddiffyniad y darfu i Paul ddefnyddio y geiriau uchod i ddysgrifio ei ymddygiad. Ond beth sydd i'w ddeall wrth "ymwneuthur yn bob peth i bawb?" Y mae y geiriau wedi, ac yn cael eu defnyddio i ddysgrifio ymddygiad gwahanol, os nad cwbl groes i eiddo yr Apostol. Y mae'n amlwg ei fod yn angenrheïdiol i gymeryd y geiriau "pob peth" a "phawb" gyda rhyw gyfyngiad. A oes rhyw egwyddor ynte wrth ba un mae i ni gyfyngu ystyr y geiriau. Ac os felly, pa beth yw yr egwyddor honno? Yn awr y mae dwy ffordd i gael allan yr egwyddor honno; sef, yn gyntaf wrth edrych ar yr amcan a ddywed Paul fod ganddo yn ei waith "yn ymwneuthur yn bob peth i bawb," sef ydoedd, "fel y gallai yn hollol gadw rhai." Ac yn ail oddiwrth yr hyn sydd ar glawr o hanes yr Apostol, ei garacter a'i ymddygiad yn gyffredinol. Diau mai hanes gweinidogaeth Paul, ei lafur a'i ddioddefiadau, sydd yn rhoddi yr esboniad goreu o ystyr yr ymadrodd, "ymwneuthur yn bob peth i bawb."

Nid peth newydd yw cyfyngu ystyr y gair "pawb;" fel y gŵyr y Calfiniaid yn ddigon da. Flynyddau lawer yn ôl, bellach, yr oeddem mewn amgylchiadau i glywed mynych a thyn ddadleu rhwng y blaid honno a'r Arminiaid yn nghylch ystyr ysgrythyrol y gair "pawb" mewn perthynas â marwolaeth Crist, a'r geiriau pendant, ei fod "wedi marw dros *bawb*," ac wedi profi marwolaeth dros *bob* dyn, &c." Dangosai y Calfiniaid yn bur lew ei fod yn anmhosibl cymeryd y gair "pawb" yn ei ystyr helaethaf heb syrthio i'r gwrthuni o ddal fod "gwerth gwaed Crist yn uffern." A dygent enghreifftiau pwrpasol ddigon er ddangos fod "pawb" yn cael ei arferyd yn

fynych mewn ystyr gyfyngedig i arwyddo dynion o bob cenedl, Iuddewon a chenhedloedd. Y mae y ddadl heb ei therfynu etto; er fod y ddwy blaid oddiar hyny wedi dyfod lawer yn nes at eu gilydd. Ond y mae'r egwyddor heb etto gael ei derbyn a'i chydnabod, sef, fod helaethrwydd ystyr y gair yn ymddibynu ar natur y bod neu'r peth y mae yn cael ei arferyd yn ei gylch. Gadawer i ni fyned ychydig dros y ffordd er nodi dau neu dri o siamplau. Dywed y Salmydd fod "Duw yn ddaionus i bawb, a bod ei drugaredd ar ei holl weithredoedd, ac i barhâu yn dragywydd," &c. Yn awr gan fod daioni a thrugaredd yn briodoleddau a berthynant i'r Bod sy'n anfeidrol a digyfnewid mae'n amlwg fod y geiriau "pawb," "oll," a "thragywydd" i'w cymeryd yn yr ystyr helaethaf; canys, pa derfyn all fod i anfeidroldeb? Yr un modd hefyd yn ôl athrawiaeth gysurlawn y Cyfammod Newydd y mae tadoldeb Duw a'i ewyllys da i bawb yn dwyn perthynas â phob dyn yn ddiwahân. Nis gall anghrediniaeth ac anufydd-dod rhai wneuthur un cyfnewidiad yn ewyllys da y Tad cyffredinol; yr unig gyfnewidiad a fydd yn yr oruchwyliaeth gyfatebol a defnyddir mewn ymweliad cospedigaethol tuag at y cyfryw. Y mae rhai o addewidion mawr yr Efengyl o angenrheidrwydd yn ammodol, ond y ma'r alwad a'r cynnygiad i bawb yn yr ystyr helaethaf—neb yn cael ei wrthod—neb yn cael ei gau allan; a hyny oherwydd natur yr oruchwyliaeth, yr hon sy'n tarddu a ddaioni anfeidrol. Y cyhoeddiad o adgyfodiad a barn i ddyfod ydynt i bawb yn yr ystyr helaethaf ac yn ddiammodol.

Y mae dadl hefyd yn bod, fel y gwyddys, rhwng Undodiaid a Thrinodiaid yn nghylch ystyr ysgrythyrol "pawb" a "phob peth" mewn perthynas âg awdurdod a gwaith ein Harglwydd Iesu Grist. Yn Matt. xxviii. 18. dywed Crist fod "pob awdurdod yn y Nef ac ar y ddaear wedi ei roddi iddo ef." Paham, gofynir, na ddylid deall y gair "pob" yma yn ei ystyr helaethaf? Wel, dyma p'am, yn ôl ein barn ni,—Gan mai awdurdod *wedi ei roddi* ydoedd, rhaid ei fod yn beth cyfranadwy. Nis gellir rhoddi na chyfranu hollalluogrwydd. O ganlyniad rhaid ei fod yn awdurdod terfynol a chyfyngedig. Ac y mae'r cyfyngiad i'w ganfod oddiwrth y testun: sef yw hyny, fod pob awdurdod wedi ei roddi i Grist ag oedd yn angenrheidiol a digonol tuag at sefydlu a chynal ei grefydd yn y byd. Yr hyn sy'n berffaith unol â'r hyn a ddywedodd ef "nas gallai efe wneuthur dim o hono ei hun." Etto, yn Col. i. 16, lle y dywedir mai "trwyddo ef y crewyd pob dim a'r sydd *yn* y nefoedd ac ar y ddaear," &c., os cyfleir yr egwyddor, rhaid ymofyn pa greadigaeth ydyw yr hon a sonir am dani.

Pa un ai y greadigaeth sylweddol, neu ynte y greadigaeth newydd; yr hyn, debygem ni, sy'n cael ei benderfynu gan y pethau a enwir gan yr Apostol fel wedi eu creu trwy Iesu Grist. Yn awr, nid *y nefoedd a'r ddaear a'u trigolion* a ddywedir yma eu bod wedi eu creu trwy Iesu Grist; ond pethau *yn* y nefoedd a'r ddaear, megys "thronau, arglwyddiaethau, tywysogaethau, a meddiannau;" yr hyn a ddengys mai y greadigaeth foesol, neu y cyfnewidiad mawr trwy oruchwyliaeth yr Efengyl oedd yn ngolwg yr Apostol. Ac os felly, at hyn yma y rhaid cyfyngu y geiriau "pob dim," yn yr adnod dan sylw. Ac yn yr un ystyr rhaid cymeryd y geiriau "trwyddo ef (y Gair) y gwnaethpwyd pob peth," &c., ar ddechreu efengyl Ioan, os y caniateir mai nid am greadigaeth y byd sylweddol, eithr am y greadigaeth newydd trwy Iesu Grist yr oedd yr Apostol ar fedr ysgrifenu hanes. Ond rhaid i ni yn awr adael i'r darllenydd deallus gyfieu yr egwyddor ymhellach fel y gwelo fod hyny yn ofynol. Yr ydym eisioes wedi ei gadw yn rhy hir oddiwrth y testun mewn llaw.

Dichon fod rhai gelynion Crefydd yn ceisio gwneuthur yn fach o'r Apostol Paul am ei fod wedi dywedyd ei fod "yn ymwneuthur yn bob peth i bawb," gan osod allan y fath ymddygiad fel yn isel, a slafaidd, ac annheilwng o'r mawredd deallawl a moesol a weddai i ddysgawdwr crefyddol. Nid rhyfedd fod y rhai'n yn cymeryd maintais annheg o'r geiriau "pob peth i bawb," pan nad ydynt yn cyd-ymdeimlo yn y mesur lleiaf a'r amcan mawr oedd gan Paul yn ymwneuthur felly; sef, "fel y gallai yn mhob modd gadw rhai." Amcan daionus yr Apostol oedd y peth a goronai ei weithred. Ei weithredoedd hefyd, a'i lafur diflin, a'i ddioddefiadau yn yr achos, oeddent yn deilwng o'r amcan, ac yn brawf o'i ffyddlondeb i'r gennadwri a dderbyniodd oddiwrth Iesu Grist. Pa bryd y gwelwyd y philosophyddion a ymffrostir gymaint ynddynt yn lletya y fath amcan â dysgu crefydd a moesoldeb i'r werin yn gyffredinol? *Socrates*, yn Athen, oedd yr unig un a ellir dywedyd am dano ei fod wedi cynnyg y fath beth. Dyn hynod, mae'n sicr, oedd hwnw; a dyn mawr iawn yn ôl y cyfleusderau a gafodd.

Pa bryd y gwelwyd neb o'r philosophyddion yn ymddiosg o'u balchder athronyddol, yn ymwadu a'u hurddas fydol, ac yn llafurio a dioddef, fel y gwnaeth Paul, er mwyn lles dynolryw yn gyffredinol? A pha fodd mae i ni gyfrif am y gwahaniateh? Yn ol ein barn ni, gwirionedd y grefydd Gristnogol yn unig all gyfrif am y gwahaniaeth. Yr oedd dwyfoldeb a rhagoriaeth ei ddysgeidiaeth yn ymddangos yn ei heffeithiau ar ei garacter a'i ymddygiad. Y mae hanes bywyd Paul a'i ddioddefiadau yn tystio hyn.

Sylwyd eisioes fod y geiriau "pob peth i bawb" i'w cymeryd mewn ystyr gyfyngedig, ac yn unol a'r amcan y dywed yr apostol ei fod yn "ymwneud felly;" sef, i gadw pawb a allai, trwy eu hennill i'r ffydd gadwedigol, yr hon sydd yn Nghrist Iesu. "Beth," medd rhyw un, "a gadael fod yr amcan gystal ag y byddo, a oedd yr Apostol er mwyn hyny i wneud ei hun 'yn bob peth,' yn lleidr, yn gelwyddwr, yn wenieithiwr, ac yn bob peth arall er mwyn yr achos da?" Na, na, nid felly yn wir. Buasai hyny yn gwbl groes i'w amcan fel pregethwr y gwirionedd a chyhoeddwr adgyfodiad a barn i ddyfod. Ac ni welwyd oll ddim o'r fath beth yn ymddygiad yr Apostol, ychwaith, fel y mae hanes ei weinidogaeth yn tystio. Gwel Gal. ii, 11—14, &c. Ond yr oedd bob amser yn awyddus ac yn barod, gydag Iuddewon a Chenhedloedd, i wneuthur ei hun yn mhob peth yn wasanaethgar er plannu y ffydd Gristionogol yn eu meddyliau a'u calonau, Ni cheir yr un cefnogaeth oddiwrth eiriau neu ymddygiad yr Apostol Paul i arferyd y peth a elwir "*pious fraud*," neu i ddywedyd celwydd, neu i gelu'r gwir, yn fwriadol er mwyn cynnal y peth a ystyrir yn achos da.

Darllener adn. 19—23 o'r bennod. Oni welwn yn rhodiad Paul gyflawniad o'r gorchymyn, "Yr hwn sydd fwyaf yn eich plith bydded was i bawb?" Er wedi ei eni yn rhydd ac yn anymddibynol, yn meddu ar gyfoeth, ac yn ddinesydd Rhufeinig, nid oedd un llafur na slaf-waith nad oedd ef yn ei gymeryd arno yn ewyllysgar, fel y gallai gyflawni amcanion ei weinidogaeth. Darfu iddo ef ar bob galwad amddiffyn rhyddid eraill yn wrol ac yn gyhoeddus, mewn gwrthwynebiad i'r sawl a fynent ddwyn y troedigion Cenhedlig dan iau y seremoniau; ond yr oedd yn barod i ymwadu â'i ryddid ei hun mewn pethau nad oeddent o bwys er mwyn llwyddiant yr Efengyl, gan gyd-ymffurfio a rhagfarnau ac arferiadau diniwed ei gydwladwyr, pan y digwyddai iddo syrthio i'w cyfeillach,fel y gallai ennill eu sylw at athrawiaeth Crist.

Yn ei waith yn cyhoeddi ac yn amddiffyn y gwirionedd yn ddiofn ac yn ddidderbyn-wyneb, ac ar yr un pryd yn ymostwng i gyd-ddwyn â gwendid-

au dynion gyda thynerwch brawd, gwelwn brawf fod Paul mewn gwirioned d "yn ddarostyngedig i ddeddf Crist," yr hon yw deddf cariad, am anghy d-marol ragoroldeb yr hon egwyddor y dywedodd ef, "Pe llefarwn â thafodau dynion, ac heb fod genyf gariad yr wyf fel efydd yn seinio neu symbal yn tingcian." Dyma ddyn, dyma Gristion (onidê) sydd werth i ni fod yn ddilynwyr iddo, fel yr oedd efe yn dilyn Crist. Fath wahaniaeth rhwng y fath ydyw yn awr a'r peth oedd ef gynt! Ai yr un ydyw â'r "dyn ieuangc Saul, yr hwn oedd yn cytuno i ladd y cyn-ferthyr Stephan?" Iê; y mae Saul yr erlidiwr gynt yn awr yn Paul y pregethwr selog, llafurus, erlidiedig a dioddefgar. Mae calon galed y gwr ag oedd "yn chwythu bygythiau a chelanedd," wedi ei meddalhau a'i phuro yn lân. Mae effeithiau grasol crefydd Crist i'w canfod yn ei dymmer a'i ymddygiad. Nid yw Apostol mawr y Cenhedloedd ddim yn ei chyfrif yn swydd ry isel iddo ef i "ymwneud yn bob peth i bawb."

I.

---

# Y DRINDOD.

## Llythyr viii.

Addefiadau y trindodiaid, allan o *Wilson's Concessions*.

Fe all addefiadau eu brodyr eu hunain gael mwy o argraph ar drindodiaid annysgedig nac un ymresymiad a allwn ni ddefnyddio; gan hyny wele rai o honynt yn canlyn ar y tri thyst nefol, 1 Ioan v. 7: "Y mae tri yn tystiolaethu yn y nef, y Tad, y Gair, a'r Yspryd Glân; a'r tri hyn un ydynt."

"Nid yw'r gair person yn cael ei gymhwyso yn yr ysgrythyr i'r tri hyn a elwir felly. Ni ddywedir yno, "Y tri *pherson* hyn un ydynt," ond yn unig, "Y *tri* hyn un ydynt." Dim ond arferiad yr eglwys sydd wedi rhoddi i'r tri rhywbeth hyn yr enw personau."—*Dr. J. Wallis, Fifth Lect. p.* 17.

"Nid yw'r ysgrifenwyr mwyaf dysgedig ar y Testament Newydd ddim yn ei hesbonio [yr adnod uchod] gyda golwg ar y drindod. Darfu i'r hen ysgrifenwyr eglwysig, y rhai a'i cymwysasant hi i'r dirgelwch hwn, fyned ar ol arferiad yr amser hwnw o roddi i'r ysgrythyr y fath ystyr dduwinyddol ag oedd addas i'r ffydd a dderbynid gan yr eglwys ar y pryd. Gan hyny nid yw o un dyben i ddadleu yn nghylch ychwanegiad adnod yr hon nid yw o honi ei hun yn sefydlu yn eglur yr athrawiaeth o drindod o bersonau yn y duwdod, ond yn ei chymeryd yn ganiattaol yn ol tyb duwinyddion henaf yr eglwys. Nid wyf yn meddwl fod llawer o'r rhai diweddar yn tueddu at Ariaeth, trwy sylwi mai yr hyn a osodir allan yw undeb tystiolaeth. Y tri hyn, medd Father Amelot, ydynt un yn eu tystiolaeth. Tystiolaethodd y Tad i Grist yn afon yr Iorddonen, y Gair trwy ei ymadroddion a'i weithredoedd, a'r Yspryd Glân ar ddull colomen, a thrwy ei ddoniau gwyrthiol."—*Father Simon, Histoire Antique du Texte de Nouv. Test. chap.* xix.

"Nid yw Dr. Hammond ddim ond ymgeecru a'r esbonwyr mwyaf dysgedig, y rhai ydynt yn esponio *un ydynt* mewn cydsyniad. A'r rheswm pam y maent yn deall y geiriau hyn am gydsyniad yw, yn gyntaf, oblegid eu bod yn cael eu harfer felly yn Ioan x. 30, a xvii. 21; yn ail, oblegid mai am undeb tystiolaeth, ac nid undeb natur, y mae'r ymadrodd yma."—*Le Clerc, Suppl. to Hammond, p.* 619.

"Y mae'r rhan amlaf o ddynolryw yn difynu'r ysgrythyr wrth swn yn fwy na sylwedd. Y maent yn cymmeryd pob ymadrodd fel haeriad ar ei ben ei hun, neu ddiareb, ac yn ei gymmwyso yn ol ei feddwl ymddangosiadol (llythyrenol), wedi iddynt ei rwygo'n dreisiol oddiwrth y cyd-destunau. Er y gallai beirniad cymhedrol, ar ol ymchwiliad manol i ymresymiad yr apostol, gael ei dueddu i ammeu p'un a ydyw un hanfod y Drindod yn cael ei gosod allan yma a'i peidio, mor anaml

oedd y fath feirniaid yn yr eglwys gyntefig, ac mai anaml ydynt yn ein heglwys ninnau."—*Prof. Porson: Letters to Archdeacon Travis, p.* 371.

"Yr wyf hefyd o'r farn fod gormod o bwys wedi ei osod ar y rhan hon gan yr *orthodox* yn gyffredin, fel pe buasai yn cynnwys prawf diamheuol o'r athrawiaeth [y drindod.] A chaniattau ei phurdeb, ni wnawn ei rhesu wrth ochr testunau eraill a berthyn i'r un pwngc. Ymddengys ei bod yn hollol ddieithr i amcan yr ysgrifenydd, a rhediad ei ymresymiad, i ddeall y geiriau *hen eisi* am undeb hanfod neu natur, a gadael eu bod yn bur. Byddai cydsyniad, neu undeb amcan, yn amlwg yn cytuno a'r cyd-destunau blaenorol; ond gwnai cydsylweddolrwydd (*consubstantility*) anafu'r cyssylltiad, a dinystrio cydlyniad yr ymadrodd."—*Rev. Samuel Davidson, Ll. D.: Lectures on Biblical Criticism, vol.* vi. *p.* 174—5.

"Yr wyf o'r dyb fod *hen einai*, yn y 7fed adnod, yn gosod allan gydsyniad neu gydgordiad, ac nid cydsylweddolrwydd y personau dwyfol; onide ni allasai *to hen* yr 8fed adnod gael ei ystyried fel yn dwyn dim perthynas a *hen* yn y 7fed adnod, * * * a chymeryd yn ganiattaol burdeb yr adnod. Yn awr na allai *hen einai* yn yr 8fed adnod dybiedig ddioddef un ystyr arall sydd wedi ei ganiattau gan drindodiaid selog iawn; ac yn eu plith y diweddar Esgob Horsley. Ond, i beidio ymresymu oddiwrth awdurdod, ystyrir pa fodd y mae'r ymadrodd *hen einai* yn cael ei arfer mewn mannau ereill yn y Testament Newydd. Yn 1 Cor. iii. 8, y mae *hen einai* yn cael ei arfer am yr hwn sydd yn plannu ac yn dyfrhau; lle nad oes dim yn rhagor nag undeb amcan yn ddychymygadwy. Yr oedd *hen einai* yn ymadrodd hoff gan St. Ioan, fel y gwelsom. Yn Ioan xvii. 22, y mae Crist yn gweddio ar y Tad ar fod y disgyblion *hen osin, cathos hemeis hen esmen* [yn un, megys yr ydym ninau yn un]. Y mae'r rhanau hyn, dybygaf, yn penderfynu ystyr yr ymadrodd yn Ioan x. 30, ac yn mha fan arall bynag y cyfarfyddir ag ef yn y Testament Newydd."—*Bishop Middleton: Doctrine of the Greek article, p.* 609, 10.

Wele ddigon o awdurdodau i ddangos nad oes trindod yn y geiriau yn Ioan v. 7; a chaniattau eu bod yn bur. Wele yn canlyn ddifyniadau ereill i ddangos nad yw'r geiriau, "Yn y nef, y Tad, y Gair, yr Ysbryd Glân, a'r tri hyn un ydynt," adn. 8, "Ac y mae tri yn tystiolaethu ar y ddaear," ddim yn cael eu hystyried yn rhan o'r Beibl gan drindodiaid dysgedig, heblaw Griesbach, Matthæi, Lachmann, &c., y rhai ydynt yn gadael y geiriau uchod allan o'u hargraphiadau hwynt, ac yn rhoddi eu rhesymau dros hyny.

ADDEFIADAU'R TRINDODIAID NAD YW'R GEIRIAU UCHOD DDIM YN RHAN O'R BEIBL.

"Y mae gennym rai cecrwyr mewn duwinyddiaeth wedi eu tyngu i ganlyn eu meistr, y rhai ydynt yn barod i amddiffyn unpeth, os bydd achos, pa mor wrthun bynnag y byddo. Ond yr wyf yn credu nad oes dyn yn ein plith, ac sydd yn y mesur lleiaf yn hyddysg mewn beirniadaeth gyssegredig, ac mewn meddiant o'i synwyr, a fyddai yn foddlon ymdrechu dros burdeb yr adnod."—*Esgob Lowth, ac amrai eraill.*

"Wrth ganfod pa gymaint oedd y pwngc [yn nghylch purdeb 1 Ioan v. 7] yn cyffroi meddwl y cyhoedd, ac y dysgwylid oddiwrth olygydd y Testament Newydd ddatganiad eglur o'i farn ar y pwngc, ymroddodd Bentley, dros y pedwar mis canlynol, i chwilio'r dystiolaeth o'r ddwy ochr. Wedi dewis hwn yn destun ei raglith, rhoddodd hanes rheolaidd o'r adnod, a'r dull y dyfynir y rhan hon o St. Ioan gan yr hynafiaid; a diweddodd trwy wrthodiad pendant o'r adnod, gan amddiffyn athrawiaeth y Drindod fel y derbynir hi gan yr iawn-gred, a dangos nad oedd yn sefyll mewn angen o'r fath atteg ammheus.* * * Bu ysgrif wreiddiol y dernyn hwn unwaith yn meddiant Dr. Vincent, Deon dysgedig Westminster, wedi ei rhoddi yn fenthyg iddo gan berthynas Bentley: y mae llythyr o'i eiddo yn gorwedd o'm blaen yn awr, yn cynnwys hanes y cynwysiad ydwyf wedi newydd roddi, ac yn ychwanegu ei fod iddo ef 'yn argyhoeddiad."—*James Henry Monk, D.D., Esgob Caerloyw; Life of Richard Bentley, D.D., p.p.* 349—351.

"Y mae purdeb yr adnod hon yn sicr yn amheuus; oherwydd y mae barnwyr

galluog iawn wedi ffurfio gwahanol farnau am dani. Ond y mae Griesbach yn cyhoeddi yn y modd mwyaf penderfynol fod y tystiolaethau a'r rhesymau cadarnaf yn erbyn yr adnod hon, ac, os derbynir hi ar y sail wan a ddygir i'w hamddiffyn hi, fod holl gorph y Testament Newydd yn amlwg yn ansicr ac amheuus. Y mae'n rhaid i mi gyduno a'r fath awdurdodau, [*sef Griesbach, Porson, a Marsh*]. Ac y mae genyf ragor i'w ddywedyd, sef, hyd yn oed pe y derbyniem yr adnod hon, ni allwn ddim haeru yn bendant ei bod yn dysgu undeb natur mewn tri pherson; oblegid gall nad ydyw yn meddwl rhagor na chyttundeb yn y dystiolaeth honno yr hon ddyweder yno y mae'r tri yn ddwyn." Wedi ei dalfyrru o *Principal Hill*: Lect. in Divinity, Vol. I. p. 444.

"Nid oes gennym un rheswm i feddwl i'r rhan nodedig honno yn llythyr cyntaf St. Ioan (v. 7,) yr hon a adawir allan yn gyffredinol yn yr hen lawysgrifau Groeg, gael ei thaflu allan trwy dwyll yr Ariaid. * * * Darfu i'r diwigwr mawr hwnnw ein crefydd [*Luther*] wedi iddo gael ei argyhoeddi nad oedd y rhan bur adnabyddus honno yn Llythyr cyntaf St. Ioan (v. 7.) yn bur, wrthod lle iddi yn ei gyfieithad ef o'r Beibl, ac yn ei ragymadrodd i'w ail-argraphiad ardystiodd yn ddifrifol yn ei herbyn; gan ddeisyf ar y rhai oeddent o wahanol farn i adael ei ysgrifeniadau ef heb eu llygru;* ac yn hytrach i wneuthur cyfieithadau newyddion, nag i wthio i'r hen yr hyn a wadai ef fod yn bur. Ond, gan gymeryd eu harwain gan sel gamsyniol dros opiniynau iawn gred, darfu i dduwinyddion *Germany*, ymhell ar ol marwolaeth Luther, osod i mewn yr adnod ffugiol, ac etto cadawsant yr enw "Cyfieithad Luther," ar y teitl.—Gallesid meddwl, na wnai un beirniad, yn enwedig *Protestant*, betruso am eiliad i farnu fel ffugiol adnod nad yw i'w chael mewn un hen lawysgrif Roeg; nad yw yn cael ei difynu gan un o'r Tadau Groeg; nad oedd yn adnabyddus i'r Alogi yn yr ail ganrif; yr hon sydd yn eisiau yn y ddau gyfieithad Syriaidd, y ddau gyfieithad Arabaidd, y cyfieithadau Coptaidd, Armenaidd, Ethiopaidd, a Slavonaidd; ar gael yn unig yn y Lladin, ac yn eisiau mewn llawer o'r llawysgrifau hyd yn oed o'r cyfieithad hwn; yr hon ni chafodd ei difynu gan neb o Dadau Lladin y pedwar canrif cyntaf, ac hyd yn oed i rai o honynt mor ddiweddar a'r chweched canrif: yr oedd naill ai yn hollol anadnabyddus, neu nis derbynid hi ganddynt fel yn bur." *J. D. Michaelis*, Int. to the N. T., vol. i. pp. 326-8; vol iv. pp. 431-2.

"Y mae'n ofidus ac yn flin gennyf fod rhai ysgrifenwyr dysgedig wedi cymeryd arnynt yn ddiweddar eu bod wedi cael eu boddloni ynghylch purdeb yr adnod hon, tra nad ydynt yn dwyn ymlaen ddim ond tybiau a dychymygion, a chamsyniadau ymron yn angrhedadwy wrth osod allan ffeithiau i orbwyso pwys y dystiolaeth ar yr ochr arall. * * * Y mae'r cynnyg i droi o'r neilldu benderfyniad beirniadaeth ddiduedd a gonest yn flin a gwarthus. * * * Gellsid disgwyl y buasai i Dr. Scholz blygu, yn y matter hwn, i awdurdod anffaeledig ei eglwys; oblegid braidd yr ymddengys yn gyson ag ymwadiad a'r hawl i farnu drosto ei hun, ac ymddarostyngiad hollol i awdurdod anffaeledig, iddo ymorphwys ar ei farn ei hun i wrthod adnod a haerwyd ei bod yn bur gan Babau a Chymanfaoedd; ond y mae ei degwch beirniadol uwchlaw ei dueddgarwch pabyddol. Yn ei gyfieithad ardderchog (1830), y mae'n gadael allan y rhanau ffugiol, ac yn rhoddi'r adran yn ei ddull pur: "Y mae gan hynny dri thyst, yr yspryd, y dwfr, a'r gwaed; a'r tri hyn un ydynt:" ac y mae'n ychwanegu y sylw hwn, "Ar ol y geiriau tri thyst, y mae'r Vulgate yn ychwanegu fel y canlyn—*yn y Nef; y Tad, y Gair, a'r Yspryd Glan, a'r tri hyn un ydynt.*— Ond nid yw yr ychwanegiad hwn mewn un llawysgrif Roeg ond tair, y rhai ydynt yn hollol ddiweddar; nid yw mewn un hen gyfieithad oddieithr y Lladin (*Vulgate*,) a hynny hefyd ar ol y bumed canrif; nid yw mewn un o'r Tadau Groeg, Syriaidd, na Lladin (oddigerth ychydig o'r rhai Lladin, yn dechreu gyda Vigilius o Tapsus yn y bumed canrif). Y mae'r dystiolaeth fewnol hefyd, oddiwrth ddiffyg cyssylltiad, yn llefaru yn ei herbyn; gan nad oes un achos yn gofyn dwyn y tystion nefol i mewn."—*Dr. J. P. Smith*, Scripture Testimony, Vol. iii. pp. 127-8.

* Da iawn fuasai pe gwnaethent yn ol ei gynghor, ond nid felly y bu, medd Michaelis.

"Y mae genym y parch puraf i Esgob St. Dewi; ond ni allwn ddarllen ei draethiad [ei fod yn credu fod yr adnod dan sylw yn bur] heb syndod. * * * Fe ellir profi athrawiaeth y Drindod yn foddhaol trwy ranau eraill o'r ysgrythyr; rhanau lla agored a phendant, mae'n wir, na'r rhan hon sydd o'n blaen, ond," &c. *Quarterly Review, for January*, 1822.

"Yn nechreuad y 19eg canrif darfu i'r Armeniaid waredu eu hargraphiad hwy o'r ysgrythyrau rhag y llygriad haerllug ac eglur hwn o iaith St. Ioan; ac nid oes gennyf fawr amheuaeth, pe y gellid adchwilio etto yn ddiesgeulus y cyfieithad Saisneg derbyniedig, y cai y testun ffugiedig a achwynwn o'i herwydd ddioddef yr un dynged. Yn y cyfamser, dyledswydd offeiriaid Eglwys Loegr ydyw peidio bod yn fwy esgeulus nag eraill ynghylch sefyll dros burdeb yr Ysgrythyrau Sanctaidd; ac, os na allant symmud yn uniongyrchol yr adnod ffugiol o'u cyfieithad hwy, o leiaf i beidio ofni gwneuthur y twyll yn gyhoedd."—*John Oxle*, Rector of Scawton; *apud Orme's Memoir of the Controversy respecting the Three Heavenly Witnesses*, p.p. 165—6.

Wele bellach o flaen y darllenydd gynnifer o awdurdodau ag oeddwn yn feddwl ddwyn ymlaen yn erbyn yr adnod ffugiol yn llythyr cyntaf Ioan, oll o honynt, yn drindodiaid, yn ddigon parod, bid sier, i'w hymddiffyn, a'i chadw ynghorph y Beibl, pe byddai bossibl: er hynny wele hwynt yn ymadael a hi, a rhai o honynt yn flin ganddynt, fel Dr. Pye Smith, fod neb yn gallu sefyll drosti yngwyneb y fath fynydd o dystiolaeth sydd yn ei herbyn. Y mae llawer yn rhagor o ddysgedigion yn ymwrthod a hi, ond nid oes eisiau crybwyll rhagor o honynt. Y mae ymhlith y rhai crybwylledig rai o bob enwad ymron. Ni wnaethum ddifynu neb o'n hysgrifenwyr ni ein hunain; ac y mae y rheswm pam yn eglur. Rhy barod eisioes yw'r byd i ddywedyd ein bod ni, yr undodiaid, yn gwadu'r Beibl, er nad ydym yn ammau dim o hono, ond yr hyn sydd yn cael ei wrthod gan y trindodiaid eu hunain; gan hynny tybiais yn well i beidio crybwyll barn cymaint ag un Undodwr fel awdurdod dros yr hyn a ddywedais, gan fod barn rhyw drindodwr neu gilydd yn barod wrth law.

Cyn diweddu fy llythyr, rhaid i mi ddywedyd, er mor aml a chedyrn y profion, er mor gref y dystiolaeth, er mor *respectable* yr awdurdodau sydd yn erbyn y Tri Thyst Nefol, etto yr wyf yn agored i gael fy argyhoeddi gan well tystiolaeth neu gryfach profion drosti. Os oes rhyw drindodwr *dysgedig*, oblegid ni wna'r anysgedig y tro yma, yn gwybod am y fath brofion, yr wyf yn ymbil arno eu dwyn ymlaen o flaen y cyhoedd, ar faes yr "Ymofynydd," eglwyswr neu ymneilduwr, ni wnaeth beth y fyddo ei syniadau, ei brofion sydd eisiau. Yr wyf unwaith etto yn galw arnynt i ddyfod i'r maes, o gariad tuag attaf fi am brodyr, a llawer eraill, gobeithiaf a fyddant yn dra diolchgar am eu tynu o'u camsynied. Nid wyf wrth hyn yn rhoddi her i neb, ond chwenych cael goleuni ydwyf; er, ar yr un pryd, yr ydwyf yn teimlo'r tir sydd dan fy nrhaed yn bur gadarn.

Yn fy llythyr nesaf yr wyf yn bwriadu rhoddi addefiadau trindodiaid ar y drindod a rhai pethau eraill, ac yna i dynu y casgliad cyffredinol oddiwrthynt dros *Undod diranedig* Y TAD. O. EVANS.

---

# EGLWYS LOEGR.*

## I.—EI SEREMONIAU.

PAN oedd yr hiliogaeth ddynol yn ei babanod nis gellir disgwyl llai na bod crefydd hefyd yn ei babanod; oddiwrth blant ni ddisgwylir ond pethau plentynaidd. Ym moreuddydd dynoliaeth nis gellsid bod yn grefyddol heb gerf-ddelwau, temlau addurnedig, allorau, offeiriaid, aberthau, arogldarthau &c. Pan oedd dynolryw yn anwybodus ac haner gwareiddiedig ni all'sent ddim yn amgen. O bossibl mae

* Gwel y "CHRISTIAN PILOT," Rhif. 12.—Nid yw R. E. B. M. yn attebol am gywirdeb yr *holl* syniadau cynwysedig yn yr ysgrifau hon.

dyma'r ffordd oreu i gyfrif am seremoniau a defodau crefyddol yr oesoedd boreuaf, yn hytrach na'u priodoli yn uniongyrchol i orchymyn Duw. Mae dynion yn amrywio 'n fawr oddiwrth eu gilydd ynghylch y pwngc hwn, ac ni anturir ei benderfynu yn yr ysgrifau hyn.

Gan nas gall plant ymhyfrydu mewn dim ond teganau, felly Duw a gyd-ddygodd a gwendidau ei greaduriaid gan eu tywys yn araf yn y blaen i ymhyfrydu mewn pethau gwell maes o law. Yn yspaid caethiwed yr Israeliaid yng ngwlad yr Aipht, ymarferasant â'r Seremoniau â'r defodau mwyaf mawreddus a welwyd yn y byd cenedlig erioed; a phan eu dygwyd allan o wlad y caethiwed trwy law Moses, Duw yn ei dynerwch a ganiattaodd iddynt ffurf o grefydd yr hon oedd yn llawn seremoniau rhag ofn iddynt hiraethau ar ol defodau yr Aipht, a'u temtio i eilunaddoliaeth gan ymddangosiad gogoneddus ei hallanolion. Ar ol eu dychweliad arferwyd pob moddion i'w cadw rhag troi eu hwynebau yn ol tua'r Aipht a syrthio i ddyrysfeydd gau-dduwiaeth. Mewn canlyniad, gosododd Moses o'u blaen gyfundraeth seremoniol mewn efelychiad i eiddo'r Aipthiaid, gyda'r gwahaniaeth o fod iddynt yn eu holl gyflawniadau wasanaethu Duw Abraham, Isaac, a Jacob yn lle ymroddi i eilunod. Trefnodd Moses ar eu cyfer boeth-offrymau, bwyd-offrymau, ac hedd-offrymau, ynghyd ag anifeiliaid addas i'w haberthu mewn gwahanol amgylchiadau; sefydlodd wyl y Pasgc, gwyl y Pentecost, a gwyl y Pebyll; y Sabbathau a'r newyddloerau; gwnaeth iddynt Dabernacl, a Cherubiaid o waith cywriant, a Chanwyllbrenau o aur coeth a chrogleni o amryliw lieiniau drudfawr; appwyntiodd Archoffeiriad, a rhifedi mawr o Offeiriaid a Lefiaid, ac i bob dosparth wahanol wisgoedd a gwahanol swyddau.

Ond er fod amgylchiadau yr Israeliaid yn cyfiawnhau y cynllun hwn ar y pryd, etto nid oedd i aros ond dros amser; yn gyfattebol i'w cynnydd mewn gwybodaeth yr oedd y gosodiad seremoniol i gael ei adael ar ol, a hwythau i fyned rhagddynt at berffeithrwydd. Ac fel darpariadaeth i'w lwyr ddiddymiad, anfonodd Duw brophwyd ar ol prophwyd i hysbysu i'w bobl ddewisedig ei anfoddlonrwydd o'u defodau crefyddol, yn enwedig felly pan yr oeddent yn ymddifad o egwyddorion da, ac yn gorphwys yn gyfangwbl ar eu cyflawniadau allanol,—wedi myned mor bell ag i ystyried fod aberthu, diod-offrymu, a chadw'r gwyliau gosodedig o honynt eu hunain yn ddigonol yn anymddibynol ar burdeb ysbryd a sancteiddrwydd. Y mae pawb yn gyfarwydd â'r geiriau hyny yn y rhai y mae Duw trwy'r prophwyd Esay yn nerthol arwyddocau ei anghymeradwyaeth o ymprydiau rhagrithiol yr Israeliaid, Wele, i ymryson a chyanen yr ymprydiwch, ac i daro â dwrn anwiredd. Ai dyma'r ympryd a ddewisais? Dydd i ddyn gystuddio ei enaid? A'i crymmu ei ben fel brwynen ydyw, a thaenu sachliain a lludw dano? Ai hyn a elwi yn ympryd, ac yn ddiwrnod cymmeradwy gan yr Arglwydd? Onid dyma'r ympryd a ddewisais? Dattod rhwymau anwiredd, tynnu ymaith feichiau trymmion, a gollwng y rhai gorthrymmedig yn rhyddion, a thorri o honoch bob iau? Onid torri dy fara i'r newynog, a dwyn o honot y crwydriaid i dy? A phan welych y noeth, ddilladu; ac nad ymguddiech oddiwrth dy gnawd dy hun?" Gyda'r un diben y mae of hefyd yn llefaru trwy Hosea; "Canys ewyllysiais drugaredd, ac nid aberth; a gwybodaeth o Dduw, yn fwy na phoeth-offrymau." Ni ddylai, chwaith, y geiriau ardderchog yn Mica gael eu hanghofio, yn y rhai y dangosir mor ddiwerth yw holl *ffurfiau allanol* crefydd pan eu gosodir yn y clorianau gyferbyn a bywyd o uniondeb, trugaredd, a gostyngeiddrwydd:—"A pha beth y deuaf ger bron yr Arglwydd, ac yr ymgrymaf ger bron yr uchel Dduw? A ddeuaf fi ger ei fron ef a phoeth offrymau, ac a dyniewaid? A foddlonir yr Arglwydd a miloedd o feheryn, neu a myrddiwn o ffrydiau olew? A roddaf fi fy nghyntaf-anedig dros fy anwiredd, ffrwyth fy nghroth dros bechod fy enaid? Dangosodd efe iti, ddyn, beth sydd dda: a pha beth a gais yr Arglwydd gennyt, ond gwneuthur barn, a hoffi trugaredd, ac ymostwng i rodio gyd a'th Dduw?" Oddiwrth y dyfyniadau uchod gwelir mae nid ewyllys Duw oedd i'r gyfundraeth seremoniol i barhau byth, er iddo oddef ei gosodiad cyntaf, ond ei fod trwy ei brophwydi o amser i amser yn uchel dystiolaethu yn ei herbyn, fel yma yn raddol yn ol fel yr oedd amgylchiadau yn caniatau yn parotoi yr Israeliaid gyferbyn a chyflawnder yr amser pryd yr ymddangosai Iesu o Nazareth i bregethu ei efengyl i'r byd.

Dau brif nodweddiad Cristnogaeth yw ei symlrwydd a'i hysbrydolrwydd. Ynddi hi y mae y llinell wahaniaethol a dynai'r Iuddewon rhwng halogedig ac anhalogedig, aflan a glân yn cael ei thorri. Dan yr Efengyl nid oes un diwrnod, un tymhor, un amser, un lle, un person, ac un ddefod yn fwy sanctaidd na'r llall. Mae Crist yn anghefnogi'r dull Iuddewaidd o gadw'r Sabboth trwy iddo ar y diwrnod hwnw yn neillduol gyflawni llawer o wyrthiau, myned hefyd i wledd fawr yn nhy Matthew, publican, a rhodio gyd a'i ddysgyblion trwy'r yd. Ond yn ei ymddiddan â'r wraig o Samaria yn yml ffynon Jacob y traethodd Crist eiriau nerthol, y rhai o'u hystyried yn iawn a fuasent ddigon byth i ddiogelu crefydd rhag cael ei handwyo gan bomp a rhodres seremoniol. Tybiai'r Iuddewon nad oedd Duw yn gwrandaw gweddi yn un man, ond yn nheml gysegredig Ierusalem, ac o'r tu arall yr oedd y Samariaid yr un mor sicr eu cred nad oedd un weddi yn effeithiol ond yr hon a esgynai o'r ty sanctaidd ar fynydd Gerisim. Gan gyfeirio at y ddadl hon ac mewn anghymeradwyaeth o honi y dywedodd Crist fel yr adroddir yn Ioan iv. 21. "O wraig, cred fi, y mae yr awr yn dyfod, pryd nad addoloch y Tad, nac yn y mynydd hwn, nac yn Jerusalem." At hyn chwanegodd yn y 24ain adnod, "Ysbryd yw Duw; a rhaid i'r rhai a'i haddolant ef, addoli mewn Yspryd a gwironedd." Ymddengys mai yr Apostol Paul oedd y cyntaf i ganfod grym ac effeithioldeb yr ymadroddion hyn, ac oddiwrthynt i gasglu'r gwirionedd pwysig nad yw ffurf allanol o werth dim mewn defosiwn Cristnogol, ond mai ar gyflwr y galon a'r meddwl mae pob peth yn ymddibynu. Canfu yr Apostol hefyd fod y gwirionedd hwn yn gwneuthur i fyny ran fawr o ryddid Cristnogrwydd—yn un o'r deddfau gwerthfawrocaf ym mreinlen yr Efengyl. O ganlyniad nid yw yn ymfoddloni ar yn unig ganiatau i'w ddysgyblion i gadw neu adael heibio yr amserau a'r tymhorau gosodedig yn ol eu dewisiad, gan ddywedyd yn ei lythyr at y Rhufeiniaid (xiv. 5.) "Y mae un yn barnu diwrnod uwchlaw diwrnod; ac arall yn barnu pob diwrnod yn ogyfuwch. Bydded pob un yn sicr yn ei feddwl ei hun," ond â ymhellach gan ddywedyd wrth y Colossiaid (ii. 16.) "Am hynny na farned neb arnoch chwi amfwyd neu am ddiod, neu o ran dydd gwyl, neu newydd-loer, neu Sabbathau." Mwy penderfynol fyth yw ei eiriau wrth y Galatiaid. Beia arnynt yn bendant am ymwneud a'r fath blentyneiddrwydd, gan edliwio iddynt eu bod yn chwenych myned lwyr eu hol i'w harferion Iuddewaidd. Fel hyn yr ysgrifena yn y iv. bennod, y 9ed a'r 10ed adnod, "Ac yn awr, a chwi yn adnabod Duw, ond yn hytrach yn adnabyddus gan Dduw, pa fodd yr ydych yn troi drachefn at yr egwyddorion llesg a thlodion, y rhai yr ydych yn chwenych drachefn o newydd eu gwasanaethu? Cadw yr ydych ddiwrnodau, a misoedd, ac amseroedd, a blynyddoedd. Y mae arnaf ofn am danoch rhag ddarfod imi boeni wrthych yn ofer."

Y fath oedd purdeb ac ysbrydolrwydd Cristnogaeth yn yr oesoedd boreu,—gogoniant ei gwynebpryd heb gael ei lychwino gan lygredigaethau seremoniol; ond collodd y nodweddiad hwn yn gynar yn y 4ydd canrif, yn yr awr anffodus hono pan y cymerodd Cystenyn fawr Eglwys Crist dan ei nawdd gan gysylltu a'r wladwriaeth mewn undeb anaturiol ei grefydd ef, yr hwn a ddywedodd "Fy mrenhiniaeth i nid yw o'r byd hwn." Anghofiodd yr offeiriaid bysgotwyr Galilea, dechreuasant gymdeithiasu a'r mawrion, cynniwair i balasoedd pendefigion ac ymgyfoethogi; ac o ganlyniad nis gellir disgwyl llai nag i Gristnogrwydd golli ei symlrwydd cynenid a myned tan gyfnewidiad cyfattebol. Chwanegwyd yn araf ddefod ar ol defod, ffurf ar ol ffurf, seremoni ar ol seremoni, gwylddyddiau, a santddyddiau, ac ympryd-ddyddiau, a gwnau drudfawr, a gwisgoedd amrywliwiog, ac allorau, a darluniadau, a cherfluniau, ac argroesluniau, nes cyrhaeddwyd o'r diwedd eithafoedd cnawdoldeb y pabyddion yn eu hamser mwyaf blodeuog. Pe codasai yr Apostol Paul yn awr oddiwrth y meirw, buasai yn ystyried y Galatiaid anianol gynt yn fwy syml ac ysbrydol na Christnogion yr amser hwn.

O'r diwedd, yn foreu yn yr 16eg canrif, ymaflodd Luther yn udgorn y Diwygiad, yr hwn oedd wedi cael ei sionio gan Wicliff yn Lloegr can mlynedd a haner cyn hyny, a bloeddiodd mor nerthol nes chwythu oddiar y muriau lawer iawn o'r llygredd addurniadol yr hwn oedd wedi anafu adeiliad hardd Cristnogrwydd. Y pryd hyny taflwyd o'r neulldu fel "egwyddorion llesg a thlodion," nid yn unig yr

athrawiaethau mwyaf adgas, ond hefyd lawer iawn o'r *defodau* a gedwid mewn bri mawr gan Babyddiaeth; ac ymhlith Protestaniaid y Cyfandir yn gyffredinol sefydlwyd cyfundraeth o addoliad mor ddiaddurn ag eiddo ymneullduwyr ein gwlad ni yn y dyddiau presenol. Ond yn y deyrnas hon fel yr oedd gwaethaf y modd bu yn wahanol. Harri yr VIII, ei hunan oedd yn haner Pabydd, a Bess ei ferch, yn nheyrnasiad yr hon y cynlluniwyd yr Eglwys wladol tra thebyg i'r peth ydyw yn awr, oedd o'r un tueddiadau ac yn hoff neullduol o wychder allanol. Y canlyniad fu mae *haner* ei diwygio a gafodd crefydd yn Lloegr, a rhai o seremoniau mwyaf gwarthus Pabyddiaeth eu cynal yn y blaen drachefn. Achosodd hyn ofid a blinder nid bychan i'r Puritaniaid. Dymunent o galon gael bod o fewn muriau'r Eglwys sefydledig pe byddai bosibl; cytunent a'r awdurdodau yn y rhan fwyaf os nid yn yr oll o byngcian ei chred; ond hwy a rwystriwyd i fyned i mewn am fod eu cydwybodau yn eu rhybuddio i ochelyd y "surdoes," oedd yno yn araf weithio ei ffordd yn y blaen. Cannoedd a miloedd o ddynion da, rhinweddol, gofalus ynghylch pob dyledswyddau, a daer ymbilient ar i'r rhwystrau oeddent ar eu ffordd i ymuno a'r grefydd wladol i gael eu symud ymaith, ond yr awdurdodau gwladol ynghyd a'r offeiriaid oeddent mor dywyll i'w lles eu hunain fel y dewisasant gynal ymlaen ryw hen ddefodau diwerth yn hytrach na sicrhau cydweithrediad y blaid luosog hon. Mae gan ymneillduwyr yr oes bresenol achos i fod yn ddiolchgar i Dduw mai fel hyn y bu. Pe buasai'r Puritaniaid wedi ymollwng, mwy na thebyg y buasai Cristnogrwydd wedi cael ei huno a'r Galluoedd Gwladol braidd mewn rhwymau anatodadwy. T. T.

## SYLWADAU AR Y GAIR "COLASIS."

MR. YMOFYNYDD,—Os na chamddeallais chwi pan y cyfarfuasom ddiweddaf,* yr ydych o'r farn fy mod wedi methu ag atteb Mr. Evans o Lambedr; ag y dylaswn wneuthur ail antur ar ddadl fawr y dadleuon. Yn wir, Mr. Ymofynydd, nis gallaf wneuthur yn well nag y gwneuthum o'r blaen, ond gallaf ysgrifenu yn y fath fodd a llanw mwy o'r "Ymofynydd" a llai o *sense*; ond pa fudd a fyddai o hynny? Mae UN arall o leiaf o'r un farn a chwi, er fy mod yn barod i feddwl nad ydyw yn cofio yr hyn a ddywedais. Ond paham na buasech chwi, y rhai ydych yn alluog i'r gwaith, yn cymmeryd mewn llaw i rhoddi atteb llawn i holl resymmau Mr. Evans? Fel *blockhead* wedi methu dywedyd ei wers, rhaid i mi, mae'n debyg, i ail ddechreu. Ond Mr. Ymofynydd, ni buoch mor garedig a dywedyd ar ba dudalen y methais gyntaf. Byddai yn ryfyg mawr ynof i wrthod myned yn ol ar eich cais, ond cofiwch mai ail adrodd drachefn a *thrachefn* yr un rhesymmau rhaid i mi i'w wneuthur er profi amynedd darllenwyr yr "Ymofynydd," a gormeilio fy hun. O'm hanfodd yr wyf yn cymmeryd y pin mewn llaw, a pha ryfedd os byddaf yn sarug?

Dechreuaf ar yr hyn a ddywed barnwr fy nghalon, yn ol ei olwg ei hun yn yr "Ymofynydd" am Rhagfyr, 1849. Gadewch i mi ddywedyd nad af fi allan o'r cwestiwn gyda Mr. Evans, am na bydd i hynny atteb un diben gwell na dallu y darllenydd, a pheri iddo golli ei olwg ar y ddadl. Dylai pawb gofio mai nid "Ewyllys Rydd ac Angenrheidrwydd," yw y ddadl, ond "Pa beth ydyw diben Duw yn ol tystiolaeth ei air, wrth gospi pechaduriaid yn y bywyd sydd yr awrhon, a pha beth mewn byd ar ol y bywyd presennol? Ai yr un un, ai nage, neu ynte pa un ai *cyfnewidiol* ai *annghyfnewidiol* ydyw Duw yn ei ddibenion; neu, ai gwir ydyw y geiriau, "Myfi yr Arglwydd ni'm newidir."

Tri math o ddibenion a ellir eu dychymygu, sef diben DA, diben DRWG, a diben CYMMSGYEDIG o'r ddau. Mae diben da yn wastad yn cospi er mwyn puro y cospedig; diben drwg er mwyn cael ei ogoniant a'i wynfyd yng ngwaeau, ac ocheneidiau y cospedig; a'r trydydd diben, weithiau er mwyn y naill, ac weithiau er mwyn

* Darfu i Mr. J. ein "camddeall." Nid ydym o'r farn ei fod ef wedi "methu" yn ei amcan; ond y mae yn dda genym ei fod yn bwriadu ysgrifenu rhagor ac yn helaethach ar y pwngc.—[GOL.]

y llall. Mae y cyntaf yn ddiben Bôd Anfeidrol *dda*, yr ail yn ddiben Bôd Anfeidrol *ddrwg*, a'r trydydd yn ddiben Bôd sydd yn bob un o'r ddau, yr hyn sydd yn beth anmhosibl i un bôd i fod, am ei fod yn wrthddywediad; a rhaid gan hynny mai naill ai diben DA Duw o anfeidrol garedigrwydd, neu diben drwg Duw anfeidrol ei ddialedd *ydyw*, ac a *fydd* diben pob cosp. Nid oes neb a hacra mai Bôd anfeidrol ddrwg ydyw "Tad ein Harglwydd Iesu Grist," er fod llawer o blant diwygiad yr unfed canrif ar bymtheg yn ei osod allan fel yn gweithredu gyda diben drwg, neu diben o ddialedd, o *gariad* at ddialedd er mwyn cael ei ogoniant yn *namnedigaeth y miliynau*. Mae yr olwg hon ar ei Dduw, yn ysgaru calon dyn oddiwrth Dad pob daioni; ac yn peri braw yn y galon, a'i hysu a phoenedigaeth tra yr aroso y syniadau i goleddu y fath gabledd. Mae profiad beunyddiol o hyn ym mhob plwyf trwy Gymru. Nid oes ddydd yn myned heibio, nad oes llawer yn achwyn fod eu calonnau yn methu a charu Duw; ac yn gweddio am i Dduw dynnu ymaith y galon garreg, a rhoddi o'u mewn galon dyner o gig: hynny ydyw, tynnu y galon na all garu dim ond daioni Duw, a phlannu yn ei lle galon yn galw caru Bod o ddiben drwg diddiwedd. Ond at y cwestiwn mewn dadl, "Pa un a ydyw Duw yn cael ei osod allan yn yr Ysgrythyrau yn poeni *er mwyn poeni*, neu, ynteu, yn poeni er mwyn diwygio?" *Hyn, a hyn yn unig*, ydyw y ddadl.

Os gwel darllenwyr yr "Ymofynydd" yn dda i droi i tudal. 106 o'r rhifyn am Fai 1849, cânt yno luoedd o brofion o Air Duw, "Mai er lles y mae Duw yn cospi yn y byd hwn o leiaf. Os yr un yn anghyfnewidiol ydyw, rhaid mai er lles y bydd iddo gospi, mewn bywyd ar ol hwn, ac nid o *gariad at ddialedd*. At yr hyn sydd wedi ei ysgrifenu, dygaf siampl o'r hen gyfammod, sef cacthglud Babilon. O ddyddiau Solomon, yr hwn yn ei henaint a hudwyd gan ei fil o wragedd i ddwyn eilunaddoliaeth y paganiaid i mewn i wlad Judea, hyd yr amser y gyrrodd Duw yr Iuddewon yn gaethion i Fabilon, yr ydym yn darllen am y temlau ar y mynyddoedd, a'r Iuddewon yn chwannog, rhy chwannog i fyned i addoli iddynt. Ond wedi cael profi caethiwed, dywedent, "Wrth afonydd Babilon yr eisteddasom ac yr wylasom pan feddyliasom am Seion. Ar yr helyg o'u mewn y crogasom ein telynau. Canys yno y gofynnodd y rhai a'n caethiwasant i ni gân, a'r rhai a'n hanrheithiasai, lawenydd: gan ddywedyd, Cenwch i ni rai o ganiadau Seion. Pa fodd y canwn gerdd yr Arglwydd mewn gwlad ddieithr? Os annghofiaf di, Jerusalem, annghofied fy neheulaw ganu. Glyned fy nhafod wrth daflod fy ngenau oni chofiaf Jerusalem goruwch fy llawenydd pennaf." Iaith "calon drom hiraethlon" ac edifeiriol ydyw hon, a dysgu hanes i ni na bu hyd y dydd hwn un chwant ar yr Iuddewon i droi yn ol at eu drwg, a'u pechod yn erbyn yr Arglwydd. Dyma gosp wedi atteb y diben. Dyma *golasis* ag y sydd yn *aionios*. Cosp wedi gwneuthur gwelliant tragywyddol. O herwydd profasach chwi Mr. Ymofynydd trwy eiriau Aristotle y rhai a ddarllenasoch yn "Library y Presbyterian College," mai ystyr y gair Colasis ydyw "cosp a weinyddir er lles y cospedig," ac felly colasis aionios, ydyw cosp er lles tragywyddol y cospedig. Y lles ac nid y gosp sydd yn dragywyddol i'r Iuddewon. Nid ymgrymmant i eilunod byth mwyach.

Yr ail siampl a ddygaf ydyw y Mab afradlon yn gadael tu ei Dad, ac ar ôl newyn hirfaith yn dychwelyd yn ol, gan ddywedyd rhyngddo ag ef ei hun,—"Pa sawl gwâs cyflog o'r eiddo fy nhad sydd yn cael eu gwala, a'u gweddill o fara, a minnau yn marw o newyn? Dyma iaith dyn yn deehreu pwyllo dyma gosp wedi atteb ei diben. Yr ydoedd y ffol ffroeu uchel o'r farn nad oedd un lle cynddrwg a thy ei Dad,—na dim gofid o waeth na gorfod trigo yno. Felly y mae y pechadur yn meddwl am ei Dduw, nad oes un da o'i wasanaethu, ac yn dywedyd gyda'r bardd—

"Ffordd y groes yw ffordd y bywyd
Chwerw iawn i gig a gwaed, &c."

A gan hynny ar hyd ffordd lydan colledigaeth, a'r "drwg yn dirwyn pen ei dwysge," nes gwario ei holl nerth, ac yna egyr ei lygaid ac efe mewn poenau; a dywed wedi'n "Oh! mi rodiais ffyrdd yr ynfyd, ond yn awr y mae y cyffion wedi cau—mae fy ffyrdd drwg wedi fy nwyn i wae a thrueni—o na buaswn yn gwrandaw ar Dduw yn dywedyd wrthyf, mai 'Trallod ac ing' fydd 'ar bob enaid dyn sydd yn gwneuthur drwg, &c.' Yn awr yr ydwyf wedi profi mai hyn ydyw y gwir-

ionedd, a rhaid bellach im gredu mai geiriau Duw yn unig sydd yn wirionedd, ag nas gellir ei ysgogi. Gadawaf yn awr fy nrwg sydd yn tarddu o'm mympwy ffol, a dychwelaf at yr Arglwydd yr hwn sydd wedi addaw trugarhau wrthyf, a'm derbyn i'w nodded." Mae yn amlwg fod dammeg y mab afradlon yn eglur osod allan, mai lles y cospedig ydyw diben y gosp: a chan mai bôd anghyfnewidiol ddaionus ydyw Duw, rhaid mai diben da fydd ganddo wrth gospi tu hwnt i angeu. Y peth cyntaf a welaf yn "sylwadau" Mr. Evans na wneuthym sylw arno *fel ei wrthddadl ef*, ydyw anfeidroldeb drwg pechod. Fe allai nad ydych chwi Mr. Ymofynydd ddim wedi anghofio fy mod wedi cynnyg atteb yr wrthddadl hon yn Rhifyn Mai 1848 tu dalen 209, fel hyn y mae Mr. Evans yn dywedyd. "Os ydyw pechod i'w gospi oll mae yn rhaid i'r cosp fod mewn cyfartalwch i faint y trosedd; y mae o ganlyniad yn anmhosibl casglu dim yn nghylch parhad cosp nes sicrhau drygedd andwyol pechod; ac nis gellir gwneuthur hyn trwy oleuni natur. Mae yn rhaid ini ystyried fod deddfau Duw yn meddu awdurdod anfeidrol yn argraphedig arnynt, bod Duw wedi ein gosod dan rwymedigaeth anfeidrol i ufyddhau iddynt. Pan y gosodom yr hyn oll at eu gilydd, pan yr ystyriom fod pechod efallai yn anfeidrol yn ei ganlyniadau a'i fod wedi ei wneuthur yn erbyn bôd anfeidrol, ac yn drosedd o rwymedigaeth anfeidrol y mae yn anhawdd, os nid yn anmhosibl profi nad yw pechod yn ddrwg anfeidrol. Ac os ydyw drwg yn anfeidrol mae yn rhaid ei fod yn haeddu cosp anfeidrol, neu dragwyddol." Mr. Ymofynydd, gadewch i ni gymmeryd y rheffyn hyn bob yn ddarn, a chwilio a ydyw rywbeth yn well i grogi athrawiaeth ac ef na rhaff dywedir i'r Diawl dreio ei gwneuthur o eisin sil ar gais Shion Cent. "Os yw pechod i'w gospi oll mae yn rhaid i'r cosp fod mewn cyfartalwch i faint y trosedd" medd Mr. Evans. Mae *pechadur* i'w gospi meddaf innau, a dylai y gosp fod mewn cyfartalwch i faint y trosedd, a'r cyfartalwch hynny ydyw cymmaint ag y fyddo ddigonol at ei ddiwygio, a'i *ddiwygio yn drwyadl a hollol*; nes y bydd wedi darfod bod yn bechadur ac wedi ei wneuthur ar ddelw Duw, neu ei berffeithio trwy ddioddefiadau; ni ddylai gael ei gospi yn hwy, am mai nid iawn cospi delw Duw. Yma mae Mr. Evans naill ai wedi colli ei olwg ar ddiben Duw yn cospi, neu yn taeru mai boddloni *nwyd anfeidrol ddrwg* ydyw yr amcan. Pwy mae Mr. Evans yn farnu sydd yn cael ei niweidio gan bechod, pan y dywed y geiriau plentynedd hyn?—"Y mae o ganlyniad yn anmhosibl casglu dim yn nghylch parhad cosp nes sicrhau drygedd andwyol pechod." A ydyw am haeru fod Duw yn cael ei wneuthur yn annedwydd trwy bechodau dynion? Dywed fod dyn yn gallu siommi Duw, ond gwyr pawb fod siommedigaeth yn dwyn poen gyda hi; ac felly gwna dyn ei Dduw ar *system* Mr. Evans yn anfeidrol druenus. "Mae yn rhaid i ni i ystyried fod deddfau Duw yn meddu awdurdod anfeidrol yn argraphedig arnynt a bod Duw yn ein gosod dan rwymedigaeth anfeidrol i ufyddhau iddynt." Felly mae yn rhaid i ni ynte ystyried peth anmhosibl yn wirionedd, er mwyn credu mai diben drwg fydd gan Dduw wrth gospi. Gyda pharch calon i'm Creawdwr, dywedaf, na all Hollalluawgrwydd ei hun roddi dyn *meidrol* o dan rwymedigaeth *anfeidrol*. Nid ydyw Mr. Evans erioed wedi meddwl beth ydyw ystyr y gair ANFEIDROL, er ei fod ar ei dafod fel y gair llusgc "*melldigedig*" ar dafod y dyn sydd yn arferol o gammol ei gymmydog trwy ddywedyd wrth bawb mai dyn *da melldigedig* ydyw hwn a hwn. Nid oes dim ond Duw ei hun yn anfeidrol. Rhwymedigaeth ddiddechreu, diddiwedd a hollbresennol fyddai rhwymedigaeth anfeidrol. Myn Mr. Evans fod pechod yn beth anfeidrol os felly mae yn rhaid ei fod yn ddiddechreu, yn ddiddiwedd, ac yn holl bresennol, yn cael ei gyflawni gan ddyn fil miliwnau o flynyddau cyn gosod Adda yn Eden.—Yn awr yn cael ei gyflawni, ac i bara i gael ei gyflawni dros bob amser diderfyn. Pwy sydd i wneuthur peth diddechreu? Abwydyn y llwch yr hwn sydd ond er doe, ac ni bydd y foru. Mae yn anmhosibl i Hollalluawgrwydd ei hun i wneuthur peth diddechreu, na diwedd. "Mae yn rhaid i ni ystyried fod deddfau Duw yn meddu awdurdod anfeidrol yn argraphedig arnynt," ac mae eu troseddu yn ddrwg anfeidrol; wrth yr un dull o ymresymmu mae yn canlyn (*with the middle term over distributed*) Mr. Evans fod pob ufydd-dod iddynt yn ufydd-dod anfeidrol. Sicr ydyw fod mwy o dda nag o ddrwg yn y penaf o bechaduriaid ond pe bae wedi gwneuthur ond un weithred o'r fath byddai

honno yn *haeddu* gwobr anfeidrol mor sier a bod pechod yn *haeddu* cosp anfeidrol: felly bydd dyn os caiff ei haeddiant (yn ol y dull twyllodrus uchod o ymresymmu) yn anfeidrol wynfydedig ac yn anfeidrol ddamnedig ar yr un pryd! "Mae yn rhaid i'r gosp fod mewn cyfartalwch i faint y trosedd," meddai Mr. Evans. Yr ydwyf yn gofyn pa gyfartalwch sydd rhwng pechod dyn ac amser dderfyn? Er siampl dygodd Dr. Dion. Lardner wraig Mr. Heavyside er ys ychydig flynyddau yn ol, y pechod gwarthaf yn ol barn awdwr Canwyll y Cymry, a all dyn wneuthur yn erbyn ei gyd-ddyn, ond yr ydwyf yn methu canfod y cyfartalwch sydd rhyngddo ac amser diderfyn i ddioddef cospedigaeth, heb gael ei wneuthur un rhith yn well yn y diwedd. Pa gyfartalwch sydd rhwng cosp, a phechod, os nad yr un a lwyr bara y pechadur, mi a garwn wybod? Nid ydyw ddim yn ymddangos fod Mr. Evans wedi meddwl y gall fod gan Dduw ryw ddiben naill ai da, ai drwg wrth gospi. Nid felly y mae Mr. Evans, nac yr oedd ei dad o'i flaen, pan yn myned i'r allt i brynu coed—ond y mae yn dywedyd fi wna gyrbau o hwn—spocs o hwnna—shiafft i hwnco ac mi lifiaf y dderwen hon at goed dodrefn, &c., &c. Pan yn ysgythru y colfennau mae ganddo amcan i wneuthur y pren i atteb y diben: ond mae yn meddwl nad oes gan Dduw un diben doeth wrth geryddu dyn. O leiaf, nid ydwyf fi yn gallu canfod fod Mr. Evans wedi meddwl dim yn y byd beth all fod y diben. Mae yr hunanoldeb a'i gyrrodd i ddywedyd fy mod i yn ddyn *annonest* yn pregethu celwydd am dâl, a'i hunan anffaeledigrwydd a wnaeth iddo ddywedyd wrthych chwi Mr. Ymofynydd yn Rhifyn Awst 1849, tudal. 179, "ond nid ydwyf heb deimlo i'r BYW yn ngwyneb yr athrawiaethau *gau* a ddygwch yn mlaen, &c." yn ei rwystro i feddwl nag ystyried dim am y fath beth.

Gadawaf yn awr Mr. Ymofynydd rhag eich bod wedi newid eich barn, ac yn barod i ddywedyd. "Os drwg gynt, gwaeth wedi'n" Efallai y nodwch allan i mi y mannau sydd yn galw am fy sylw yng ngwaith Mr. Evans; ond cofiwch bod yn rhaid darfod a'r ddadl yng nghylch *diben cosp* cyn dechreu ar ewyllys rydd ar angenrheidrwydd. Un ar y tro. Ydwyf, &c.,

*Aberdar, Gorphenaf*, 14, 1850. J. JONES.

## DR. ADAM CLARKE AR Y TRI THYST.

*(Parhad o dudal.* 163.*)*

"Gosodwyd llawer o bwys ar amddiffyniad *Bengel* o'r testyn hwn. Ystyriodd Michaelis rym ei resymau mewn modd têg a boddhaol.

"Yr hen ysgrifenwyr a ddygodd Bengel yn mlaen o blaid 1 Ioan v 7, ydynt oll yn *ysgrifenwyr Lladin*, canys efe a addefa na ddarfu i neb o'r *tadau Groeg* erioed ei dyfynu. Yn awr, pe nas gellid gwneuthur un wrthddadl yn erbyn tystiolaeth Bengel, a bod y tadau Lladin hynaf wedi dyfynu mewn geiriau pendant yr oll o'r frawddeg mewn dadl, ni phrofiai eu dyfyniad ddim mwy na bod y frawddeg yn sefyll yn eu hysgrifiyfrau hwy o'r cyfieithiad Lladin, ac am hyny fod y cyfieithiad Lladin yn ei chynwys mewn oes fore iawn. Ond ymddengys, wrth chwilio, fod eu tystiolaeth yn bur anfoddhaol. Tystiolaeth *Tertullian*, yr ysgrifenydd Lladin hynaf a ddyfynwyd o blaid 1 Ioan v. 7, a gynwysir yn y rhan ganlynol o'i draethawd yn erbyn Proxeas, llyfr I, pen. 25:

[Felly y mae undeb y Tad yn y Mab a'r Mab yn y Diddanydd, yn gwneuthur tri cyssulltiadol, y naill o'r llall, y cyfryw dri un [*unum, un peth*] ydynt, nid un [*unis un person*]: megis y dywedir. Myfi a'r Tad un (*unum*) ydym.]*

Oddiyma cesglir am fod *tres unum sunt* [tri un peth ydynt] yn sefyll yn awr yn y cyfieithiad Lladin, 1 Ioan v. 7, fod y geiriau hyn yn sefyll yno hefyd yn amser Tertullian, a darfod i Tertullian eu benthyca hwynt o'r cyfieithiad Lladin. Eithr y

* Yn y *Lladin* y mae'r geiriau o fewn y cromfachau yn "YR ESBONIAD BERNIADOL," heb un cyfieithiad. Gwell gennyf finnau roddi'r cyfrieithiad heb y Lladin; ac felly y gwnaf a phob man arall o'r fath hyd ddiwedd yr ysgrif hon.—O. E.

mae y casgliad hwn yn hollol ddisail ; canys nid yw Tertullian yn dwyn y geiriau hyn fel dyfyniad; ac ni wna ei ddefnyddiad nooth o'r geiriau tres unum sunt [tri un ydynt] brofi ddarfod iddo gael y geiriau hyn yn y Beibl. Yn y gwrthwyneb, y mae yn amlwg oddiwrth yr hyn sydd yn canlyn yn ddiatreg, *nad oedd* 1 Ioan v. 7, yn gynwysedig yn y cyfieithiad Lladin pan yr oedd Tertullian yn ysgrifenu: canys yn brawf o'r haeriad hwn, *qui tres unum sunt* [y cyfryw dri un ydynt], efe yn ddiatreg a chwanega, *quomodo dictum est: ego et Pater unum sumus* [megis y dywedir: myfi a'r Tad un ydym], yr hyn sydd ddyfniad o efengyl St. Ioan pen x. 30. Yn awr, gan fod y dyfyniad hwn yn cyfeirio yn unig at y Tad a'r Mab, ac nad at yr Yspryd Glân, diau na phrofasai Tertullian undod y Drindod oddiwrth yr aduod hon, pe buasai 1 Ioan v. 7, yr hon sydd yn llawer mwy i'r pwrwas, yn gynwysedig mewn rhyw ysgriflyfr Lladin ag yr oedd ef yn adnabyddus o hono. Modd bynag, nid yw y defnyddiad noeth o'r geiriau *tres unum sunt* yn rhoddi un rheswm dros y frawddeg amheus; ac os ydys i dynu rhyw gasgliad oddiwrth eu cyduniad hwy a'u hailunau presenol o'r cyfieithiad Lladin yn 1 Ioan v. 7, hyn ydyw; ddarfod i'r person yr hwn wedi hyny a luniodd y frawddeg hon gadw ymadrodd a roddwyd gan awdurdod Tertullian. Cymaint a hynyna am dystiolaeth y tad Ladin hwn, yr unig ysgrifenydd yn yr *ail* ganrif ag yr apeliwyd ato.

"O'r tadau Lladin ag oeddynt yn byw yn y *trydydd* canrif, *Cyprian* yn unig a ddygwyd fel tyst o blaid 1 Ioan v. 7. O ysgrifeniadau Cyprian dyfynwyd dau ymadrodd fel profion fod 1 Ioan v. 7, yn gynwysedig yn ei ysgriflyfr ef o'r cyfieithiad Lladin. Un sydd o'i lythyr at Jubaianus, lle yr ysgrifena Cyprian fel hyn :

[Os gellir bedyddio rhyw un gan heretic, yna gall gael maddeuant, a chael ei sancteiddio, a'i wneuthur yn deml Duw: pwy Ddaw wyf yn ofyn? Os y Creawdwr, nis gallasai, yr hwn ni chredodd ynddo: os Crist, nis gallai gael ei wneuthur yn deml iddo ef, yr hwn sydd yn gwadu Crist yn Dduw: os yr Ysbryd Glân, *gan fod y tri yn un*, pa fodd y gall yr Yspryd Glân gael ei heddychu ag ef, yr hwn sydd yn elyn i'r Tad neu'r Mab.]*

Dylid sylwi yma, *nad* yw y geiriau [*gan fod y tri yn un*], er wedi eu dodi yn yr argraffiad diweddaraf o weithiau Cyprian, ddim yn gynwysedig yn yr argraffiad hwnw a gyhoeddwyd gan Erasmus; ac hyd yn nod pe byddent yn ddiddwyll, ni phrofent ddim mwy na'r un geiriau ag sydd newydd gael eu dyfynu o Tertullian. Y geiriau ereill, y rhai sydd yn llawer mwy i'r pwrpas sydd yn nhraethawd Cyprian, *De Ecclesiæ Unitate* [Ar Undeb yr Eglwys], lle y mae Cyprian yn ysgrifenu fel hyn :

[Dywed yr Arglwydd: myfi a'r Tad un ydym; a thrachefn am y Tad a'r Mab, a'r Ysbryd Glân, *y mae'n ysgrifenedig: a'r tri un ydynt.*]*

Yn awr, a chaniatau i'r geiriau *et tres unum sunt* [*a'r tri un ydynt*] gael eu dyfynu gan Cyprian o 1 Ioan v. 7, yr wyf yn gofyn yn ddifrifol i bob barnwr diduedd, pa un a ydyw ymadrodd na cheir mewn unrhyw hen ysgriflyfr Groeg, na ddyfynir gan unrhyw dad Groeg, ac na chynwysir mewn unrhyw hen gyfieithiad ond y Lladin (ac nid yn mhob ailun o hwn), i'w gyhoeddi am hyny yn gywir, yn unig am ddarfod i un Tad Lladin o'r tri chanrif cyntaf, yr hwn oedd esgob Carthage, lle yr arferid y cyfieithiad Lladin yn unig, a lle yr oedd y Roeg yn anadnabyddus, ei ddyfynu ef? Dan yr amgylchiadau hyn, a gasglem ni fod y geiriau yn sefyll yn wreiddiol yn llawysgrifen Roeg St. Ioan? Diau na wnaem; canys yr unig gasgliad a ellid ei dynu oddiwrth ddyfyniad Cyprian fyddai hyn, ddarfod i'r geiriau hyn gael eu dwyn i mewn i'r cyfieithiad Ladin mor fore a'r trydydd canrif.

"Y mae yr atebiad blaenorol yn ddigon i ddirymu awdurdod Cyprian yn cadarnhau dilysrwydd 1 Ioan v. 7, ar y dybiaeth i Cyprian mewn gwirionedd ei dyfynu ; eithr ddarfod iddo wneuthur hyny sydd fwy nag y gall neb ei brofi. Y mae y geiriau *tres unum sunt* [*tri un ydynt*] yn cael eu cynwys nid yn unig yn y seithfed aduod, ond hefyd yn yr wythfed, yr hon sydd yn rhan o hen destyn dilys St. Ioan ; ac am hyny y mae o leiaf yn bosibl ddarfod i Cyprian eu cymeryd hwynt nid o'r seithfed ond o'r wythfed aduod. Gwir ei fod ef yn dywedyd i'r geiriau hyn gael eu hys-

* Yn Lladin y mae'r geiriau hyn etto yn yr Esboniad.

grifenu am y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân; tra nad yw *tres unum sunt,* yn yr wythfed adnod, yn cyfeirio ond yn unig at yr Ysbryd, y dwfr, a'r gwaed. Ond dylid sylwi fod y tadau Lladin yn deongli spiritus, aqua et sanguis [yr Yspryd, y dwfr a'r gwaed] nid yn llythyrenol, eithr yn gyfriniol; ac yr oedd rhai o honynt mewn gwirionedd yn deall wrth y geiriau hyn, *pater, Films, et Spiritus Sanctus* [Y Tad a'r Mab, a'r Ysbryd Glân], gan gymeryd *aqua* yn yr ystyr o *Pater* [Tad], *sanguis* [gwaed] yn yr ystyr o *Filius* [Mab] a *Spiritus* [Ysbryd] yn yr ystyr o *Spiritus Sanctus* [Yr Yspryd Glân].

"Sicrheir hyn yn bendant gan Eucherius yn ei *Quæstiones N. T. difficiliores;* canys ar ol dyfynu 1 Ioan v. 8, fel hyn, [Ac y mae tri yn tystiolaethu, y dwfr, y gwaed a'r Ysbryd], efe a chwanega yn fuan wedi hyny, [Y mae llawer er hynny yma yn deall y Drindod ei hun trwy ddeongliad cyfrinol, y dwfr yn arwyddocau y y Tad, y gwaed yn arwyddocau Crist, a'r yspryd, yr Yspryd Glân]. Ond os oedd Cyprian yn meddwl mewn gwirionedd fod [y dwfr, y gwaed, a'r ysbryd yn] 1 Ioan v. 8, yn dynodi'r [Tad, a'r Mab a'r Ysbryd Glân], gallai ddywedyd am *tres unum sunt* [a'r tri un ydynt] ad. 8 ddarfod ei ysgrifenu [am y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.] A darfod iddo mewn gwirionedd feddwl felly, ddarfod iddo ddyfynu nid adn. 7, ond deall adn. 8, yn gyfriniol, a ymddengys oddiwrth y geiriau canlynol o eiddo Facundus, yr hwn oedd yn byw yn nghymydogaeth Carthage, ac o ganlyniad a ddefnyddiai yr un cyfeithiad Lladin o Cyprian:

[Y mae'r Apostol Ioan yn ei epistol ynghylch y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân, yn dywedyd fel hyn: y mae tri yn tystiolaethu ar y ddaear, yr ysbryd, y dwfr, a'r gwaed, a'r tri hyu un ydynt; wrth yr Ysbryd yn arwyddocau y Tad, &c. yr hon dystiolaeth o eiddo'r Apostol Ioan y mae'r bendigedig Cyprian, yn ei epistol neu lyfr ar y Drindod, yn ddeall fel wedi ei llefaru am y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.]

Yna dyfyna Facundus eiriau Cyprian, y rhaid ydynt destyn ein hymchwiliad presenol. Y mae yn amlwg oddiwrth y geiriau blaenorol fod 1 Ioan v. 7, yn anadnabyddus i Facundus; canys efe a brofa athrawiaeth y drindod trwy ddeongliad cyfriniol o adn. 8, ac a apelia at awdurdod Cyprian, yr hwn, medd efe, a roddes yr un deongliad. Ond os oedd 1 Ioan v, 7, yn anadnabyddus i Facundus, yr hwn oedd yn byw yn yr un wlad a Cyprian, yn arfer yr un cyfeithiad Lladin, ac yn ysgrifenu agos i dri canrif yn ddiweddarach, y mae yn anghredadwy fod 1 Ioan v. 7, wedi cael ei dwyn i mewn eisioes i'r ysgriflyfrau Lladin a ddefnyddid gan Cyprian. O ganlyniad rhaid i ni gasglu fod haeriad Facundus yn wir, a bod geiriau Cyprian yn cynwys nid dyfyniad o 1 Ioan v. 7, and cynwysiad cyfriniol, o Ioan v. 8. Cadarnheir hyn yn mhellach gan Awstin, yr hwn oedd hefyd yn Esgob Affricanaidd, yn byw gan mlynedd yn ddiweddarach na Cyprian, ac eto heb wybod dim am 1 Ioan v. 7, canys ni ddyfynodd efe erioed mo'r geiriau hyn, hyd yn nod lle y sonia efe am y Drindod, eithr efe a gymhwysodd yr wythfed adnod yn gyfriniol.'—Michaelis, cyf. VI. dal. 420.

"Yr ysgrifenwyr GROEG, y rhai ni ddyfynasant yr adnod hon, er i amrai o honynt ysgrifenu yn broffesedig ar Dduwdod Crist, ac ar y Drindod, ydynt y rhai canlynol:—

Irenæus, Clemens Alexandrinus; Dionysius Alexandrinus (neu yr ysgrifenydd yn erbyn Paul o Samosata dan ei enw ef); Athanasius; Crynodeb yr Ysgrythyr; Cymanfa Sardica; Epiphanius; Basil; Alexander o Alexandria; Gregory Nyssen; Gregory Nazianzen, gyda'i ddau esboniwr, Elias Cretensis a Nicetas; Didymus *de Spiritu Sancto;* Chrysostom; Awdwr dan ei enw ef, *de sancta et consubstantiali Trinitate;* Cyril o Alexandria; Esboniedydd Ffydd yn ngwaith Justin Ferthyr; Cæsarius; Proclus; Cymanfa Nice, fel ei harddanghoser gan Gelasius Cyzicenus; Hippolitus; Andreas; Chwe *Catenæ,* dyfynedig gan Simon; Ymyl-nodau tri ysgriflyfr; Hesychius; John Damascenus; Germanus o Gaercystenyn; Œcumenius; Euthymius Zigabenus.

AWDURON LLADIN.

Novatian: Hilary; Lucifer Calaritanus; Jerome; Awstin; Ambrose; Faustinus;

Leo Magnus; Awdwr *de promisses*; Eucherius; Facundus; Junilius; Cerealis; Rusticus; Bede; Gregory; Philastrius; Raschasius; Arnobius ieuaf; Pab Eusebias.

"Yr ysgrifenwyr a'i dyfynasant hi ydynt rai diweddar mewn cydmhariaeth, neu ffugiol; canys profodd dysgedigion nad oedd y fath destyn mewn golwg gan y rhai hyny o ryw enwogrwydd ag y tybiwyd, oddiwrth ryw ymadroddion yn eu gwerthiau, eu bod yn cyfeirio at yr adnod hon. Dywedodd gwr mawr a da fod 'y seithfed adnod, mewn cyssulltiad a'r chweched a'r wythfed, wedi cael ei dyfynu gan Tertullian, Cyprian, a rhes ddidor o dadau.' Eithr haeriad mwy anochelgar ni wnaed erioed, fel y profa y gyfres flaenorol; a'r dystiolaeth ar y pwnc a chwiliais yn dra gofalus. *Bengel*, yr hwn oedd yn ferniad rhagorol ac yn wr da, a geisiodd ei hamddiffyn, ond yn aflwyddianus; a danghosodd *Michaelis* ei ffugiolrwydd oddiwrth *hum* caniatad Bengel. Amddiffynodd *Knittel* ei dilysrwydd gyda llawer o synwyr berniadol; *Hezelius* gyda lawer o graffder; *David Martin*, o Utrecht, gyda llawer o symledd gonest; a Deon *Travis* gydag helaethrwydd o sel, heb fawr o wybodaeth, am gyssyltiadau berniadol y pwnge. Nid raid i'r *Sosiniad* ymorfoleddu am eu bob yn aniffynadwy, a bod y Trindodiad gonest yn ei rhoddi i fyny; oblegid y mae'r *athrawiaeth* [?] *santaidd*, yr hon yr ymddengys ei bod yn ei gosod allan, yn wasgaredig trwy bob rhan o'r ysgrythrau ac mor anorchfygadwy a chraig o adamant; a hi a fydd byw ac a ffyna yn eglwys Crist tra byddo haul a lleuad, ac hyd nes y llyneir amser gan dragwyddoldob.

CRYNODEB O'R HOLL DYSTIOLAETH MEWN PERTHYNAS I'R TRI THYST NEFOL, 1 Ioan v. 7.

1. "Y mae *cant a thri-ar-ddeg* o *ysgrifiyfrau Groeg* ar gael, yn cynwys Epistol cyntaf Ioan, ac y mae y testyn mewn dadl yn eisiau mewn 112. Nid fodola ond y *Codex Ravianus*, yn y llyfrgell Frenhinol yn Berlin, sydd *adysgrif* wedi ei chymeryd o'r *Beibl Amlieithawg Complutensiaidd.*

2. "Y mae yr holl *dadau* Groeg yn gadael yr adnod allan, er fod llawer o honynt yn dyfynu adn. 6, ac adn. 8, gan eu cymhwyso at y Drindod, a Duwdod Crist a'r Yspryd Glân; ïe, ac yn ymdrechu i brofi athrawiaeth y *Drindod* oddiwrth adn. 6 ac adn. 8, neb gyfeirio at y fath adnod a'r seithfed, yr hon, pe yn bodoli, a fuasai yn brawf llawer mwy penderfynol, ac yn un nas gallesid edrych drosti.

3. "Y *man cyntaf lle* yr ymddengys yr adnod yn y *Roeg* yw y cyfeithiad Groeg o Weithrediadau *Cymanfa Lateran*, a gynhaliwyd O. C. 1215.

4. "Er y ceir hi mewn llawer o ailunau *Lladin*, eto nid ymddengys fod unrhyw un a ysgrifenwyd cyn y *degfed canrif* yn ei chynwys hi.

5. "Nid yw y *tadau* Ladin yn ei dyfynu hyd yn nod lle y buasai yn cryfhau eu rhesymau yn fawr; a lle, pe buasai yn bodoli, y gallesid ei dysgwyl yn dra naturiol.

6. "*Vigilius* esgob *Tapsum*, yn niwedd y pummed canrif, yw y cyntaf ag yr ymddengys ei fod yn cyfeirio yn benodol at y tri Thyst Nefol; eithr nid yw ei ddyfyniad ef yn cytuno â'r testyn presenol mewn *geiriau* nac mewn *synwyr:* ac heblaw hyny, nid yw efe yn ysgrifenwr o nemawr gael, ac nid ymddengys i wyr dysgedig fod y lle a haerir yn un dilys.

7. "Y mae yr *ysgrifenwyr Lladin* ag sydd yn cyfeirio at y tri Thyst nefol yn amrywio yn fawr yn eu dyfyniadau, trwy fod y rhai hynaf yn gosod yr wythfed adnod o flaen y seithfed, a llawer iawn yn gadael allan, ar ol y tystion dacarol, yr ymadrodd a'r tri hyn yn un y maent. Ereill, y rhai a ddodant i mewn a'r tri hyn yn un y maent, a chwanegant yn Nghrist Iesu; ereill a ddefnyddiant eiriau gwahanol.

8. "Y mae yn eisiau yr holl hen *gyfieithiadau* ond y Vulgate; eithr y mae yr ailunau hynaf o hwn hebddi; ac y mae y rhai sydd yn ei meddu yn amrywio yn fawr oddiwrth eu gilydd, fel y gellir gweled yn y siamplau a roddwyd eisioes.

9. "Y mae yn eisiau yn argraffiad *cyntaf* Erasmus, O. C. 1516, yr hwn yn briodol yw *editio princeps* y testyn Groeg.

10. "Y mae yn eisiau hefyd yn ei *ail* argraffiad ef, yn 1519; eithr efe a'i chwanegodd hi yn y *trydydd* o'r *Codex Montfortii.*

11. "Y mae yn eisiau yn argraffiadau *Aldus, Gerbelius, Cephalœus, &c.*

12. "Y mae yr eisiau yn nghyfieithiad *Ellmynaidd* LUTHER, ac yn mhob argraffiad o hono a gyhoeddwyd yn ystod ei fywyd ef.

13. "Gosodir hi yn ein cyfieithiadau Saesonig boreol ni, ond gyda nodau o amheuaeth, fel y danghoswyd eisioes.

14. "Yn fyr, nid yw yn sefyll ar awdurdod digonol i wirioneddoli unrhyw ran o ddatguddiad yn proffesu ei ddyfod oddiwrth Dduw.

"Gwel draethawd *Greisbach* ar yr adnod hon yn niwedd yr ail gyfrol o'i destyn Groeg. *Halœ et Londins*, 1806.

"Mewn amddiffyniad i'r adnod hon gwel 'Lythyrau yr Archddeon *Travis* at *Gibbon*;' ac ar yr ochr arall, 'Atebiad Proffesor *Porson* i *Travis*.' Ni adawodd yr olaf ddim i'w ddywedyd yn mhellach ar y pwnc, mewn amddiffyniad nac attebiad." —CLARKE.

---

## MORMONIAETH.

Y MAE sect y Mormoniaid, neu "Y Seintiau" wedi peri cryn ddwndwr yn y blynyddoedd diweddaf; fel y mae eu henw bellach yn ddigon adnabyddus trwy Gymru a Lloegr. Ond nid yw dechreuad y sect feallai mor gwbl adnabyddus a gobeithio nas gwelir yn annghymwys i gyhoeddi y byr-hanes canlynol yn yr "Ymmofyndd." Cymerwyd y ffeithiau allan o *Chamber's Miscellany*, Vol. II. p. 26., a "*Rise, Progress, and Causes of Mormonism*," *gan Professor J. B. Turner, New York*, 1844. Ond am y chwedlau rhyfedd, ac adroddiadau disail sy'n cael eu taenu yma a thraw gan ac ynghylch y bobl hyn, nid ydyw yn dyfod o fewn amcan yr ysgrif bresenol i gymeryd sylw o honynt. Ni adroddir dim yma ond a ymddengys fod awdurdod da drosto. Ac os gwel neb, neu os tybia neb fod dim yn cael ei adrodd ar fai, bydd yr "Ymofynydd," oni chyll ei arfer, yn rhydd i dderbyn a chyhoeddi y gwrth-brofiad.

Mormoniaid yw yr enw sydd yn debyg o barhau i gael ei roddi i'r sect. Gelwir hwynt felly oddiwrth waith a chwir Llyfr Mormon, yr hwn a honnir ganddynt hwy ei fod wedi ei roddi trwy ysbrydoliaeth a dadguddiad. Llyfr Mormon, yr hwn a gyhoeddwyd ddwy neu dair gwaith yn Ngogledd America ac unwaith yn Lloegr yn 1841, a gafodd ei ddechreuad fel y canlyn:—

Ryw nifer o flynyddau yn ol, yr oedd dyn ieuangc o'r enw Joseph Smith, sylfaenydd, apostol, a phroffwyd y Mormoniaid, yn dilyn yr alwedigaeth o *gloddiwr-arian* (money-digger) yn yr Unol Daleithiau. Y mae'n debyg ei fod yn gred gyffredin yn rhai o'r taleithiau sydd ar lan o mor, fed symiau mawr o aur ac arian wedi eu cuddio yno dan y ddaear gan y *buccaneers*, yn gystal ag yn ddiweddarach gan ddynion a'u cuddiasant yn amser y chwyldroad. Byddai dynion anghenus a chyfrwys yn ennill eu bywioliaeth o broffesu y gallent trwy swyn-gyfaredd ddangos pa le yr oedd y cyfryw drysorau yn guddiedig; ac, yn ol y dystiolaeth oreu, darfu i Joseph Smith hynodi ei hun yn mhlith yr *arian-gloddwyr* hyn. Tra yr oedd efe yn dilyn y gwaith hyn neu'r cyffelyb, fe dderbyniodd, fel y dywed ei stori ef ei hun, fwy nag un dadguddiad o'r nef, mewn perthynas i wahanol sectau crefyddol yr oes. Y tro cyntaf, yr oedd wedi myned i goedwig, a gweddio yno ar Dduw i ddangos iddo pa un o'r holl enwadau Cristnogol ddylai efe ei barchu a'i ddilyn. Y pryd hyny, meddai efe, ymddangosodd goleuni disglaer uwch ei ben; derbyniwyd ef i fynu i'w ganol; ac yno gwelodd ddau berson angylaidd, y rhai a ddywedasant wrtho fod yr holl bechodau wedi eu meddau, fod yr holl fyd yn cyfeiliorni ar y pyngeiau crefyddol, ac y byddai i'r gwirionedd gael ei wneuthur yn adnabyddus iddo ef yn ei iawn bryd. Dadguddiad arall o fath gyffelyb a hysbysodd i Smith mai gweddill o feibion Israel oedd Indiaid yr America, a bod proffwydi a dynion dan ysprydoliaeth wedi bod unwaith yn byw yn eu plith hwynt, gan y rhai y gosodasid ysgrifeniadau dwyfol i'w cadw mewn lle diogel, rhag iddynt syrthio i ddwylaw yr annuwiol. Trydydd dadguddiad, yr hwn a wnaed ar foreu y 22ain o Fedi, 1832, a

wnaeth yn hysbys i Smith fod y cyfryw ysgrifenaidau gweddilliedig i'w cael mewn ogof ar fryn uchel y tu dwyrain i'r prif-ffordd o Palmyra, Wayne *county*, *State of New York*. Aeth Joseph yno, yn ganlynol, i chwilio, ac fel y dywed efe, cafodd gist o garreg yn cynnwys llafnau (*plates*) megis o aur, oddeutu wyth modfedd o hyd, a saith o led, ac nid gwbl mor drwchus a llafn *tin* cyffredin. Ar y llafnau hyn yr oedd yn gerfiedig Llyfr neu Fibl Mormon, yr hwn a alwyd felly oddiwrth enw y gwr a dybid ei fod ef wedi ei ysgrifenu a'i guddio. Ni chaniatawyd i Smith gymeryd y llafnau awr hyn ymaith hyd oni buasai wedi dysgu iaith yr Aipht, yn yr hon iaith, neu dafod-iaith ddiweddar o honi, yr oedd y llyfr cerfiedig wedi ei gyfansoddi. Bellach, yn Medi, 1827, barnwyd fod Smith yn gymmwys i dderbyn y llafnau aur; ac efe a drawsgrifiodd cyfeithiad Saesoneg o'r hyn oedd yn gerfiedig arnynt, yr hwn a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1830. Cafodd y gwaith hwn argraff mawr ar y graddau iselaf yn yr Unol Daleithiau, a ffurfiwyd sect yn fuan wedi'n dan yr enw "Eglwys Iesu Grist o Seintiau'r Dydd Diweddaf." Oddiwrth lyfr eu cred gelwid hwynt yn fwyaf cyffredin Mormoniaid.

Yn y gwaith o barotoi, neu yr hyn lleiaf o gyhoeddi y ffug-ddadguddiadau hyn, cynnorthwyid Smith gan ei dad, a dynion o'r enw Rigdon, Harris, ac eraill. Ar y cyntaf ni thalwyd nemawr sylw i'r twyll; ond pan welwyd fod y gyfran mwyaf anwybodus o'r bobl yn cael eu hudo ganddo er mawr niwed i'w cred a'u harferion crefyddol, darfu i ddinaswyr cyfrifol Palmyra a Manchester, lle y buasai y Smiths gynt yn trigo, ei ystyried yn ddyledswydd arnynt i gyhoeddi pa fath ddynion oedd y rhai'n. Yn ganlynol gwnaethpwyd *affidavit* gan oddeutu 50 o foneddigion, a wahanol alwadau ac amrywiol syniadau crefyddol. Yr hyn a ganlyn sydd gopi cyfieithedig o'r ysgrif hono:—

"Palmyra, N. Y., Rhag. 4, 1833.

"Nyni, y rhai ydym wedi tansgrifio ein henwau, wedi adwaen y teulu Smith, dros nifer o flynyddau tra yr oeddent yn trigo ger llaw y lle hwn, ni phetruswm ddywedyd, ein bod yn eu hystyried yn amddifad o'r caracter moesol hwnnw a ddylai deilyngu ymddiried y cyffredin. Yr oedd yn neillduol air drwg hyned iddynt am ddychymygion breuddwydiol, treulient lawer o'u hamser yn cloddio am arian, a haerent ei fod wedi ei guddio yn y ddaear; ac hyd y dydd hwn gellir gweled tyllau lawer nid yn mhell o'u trigfan, lle y treulient eu hamser yn cluddio am drysorau cuddiedig. Joseph Smith yr hynaf, a Joseph ei fab, a ystyrid yn neillduol fel yn llwyr amddiad a garacter moesol, ac wedi ymroddi i arferion drwg. Yr oedd Martin Harris wedi casglu cryn feddiant, ac mewn materion o fasnach ystyrid ei air yn dda; ond ar byngciau moesol a chrefyddol yr oedd yn freuddwyddwr trwyadl; weithiau yn dadleu dros y peth hyn, bryd arall dros beth gwahanol. Ac mewn perthynas i bawb a adwaenom sydd wedi cofleidio Mormoniaeth yn y gymydogaeth hon, yr ydym yn rhwym o ddweud eu bod wedi ymroddi i freuddwydio (*visionaries*), yn y ddiffyg o garacter moesol, ac yn ddigyfrif gyda'r cyffredin. Dyma y rheswm paham y caniatawyd iddynt fyned ymlaen a'u hudoliaeth yn ddirwystr. Ni feddylwyd fod neb o honynt yn meddu ar garacter a dylanwad gymmaint ag i ddwyn un dyn i gredu eu llyfr neu eu syniadau: ac nid adwaenom un dyn yn y gymydogaeth hon sy'n rhoddi yr ymddiried lleiaf yn y dadguddiadau a broffesant." [Yma y canlyn arwydd-noddau 51 o bersonau.]

Cof-nodir tystiolaeth gyffelyb yn erbyn y Smiths oddiwrth drigolion Manchester, y rhai a dystiant hefyd fod Cowdery a Whitmer, eu cynhorthwywyr, yn ddynion llwyr annheilwng o ymddiried.

Y grefydd ag oedd y twyllwyr hyn yn cynnyg ei dysgu a'i thaenu yn y byd, a ymddengys ei bod yn gymmysgedd o gristnogaeth, yr hon a dynid allan o ddarnau pigiedig o'r Bibl Saesoneg, a gwag-ddychymygion meddwl afreolaidd a diwrtaith. Llyfr Mormon, ar yr hwn mae athrawiaethau y sect wedi eu sylfaenu, sydd ymron o'r un faintioli a'r Hen Destament, ac a gynnwysa, a dywedyd yn briodol, ddau hanes gwahanol. Y rhan flaenaf o'r gwaith o wneir i fynu o hanes y Nephiaid, cyfran o lwyth Joseph, a dybid iddynt ymfuddo o Jerusalem dan broffwyd o'r enw Nephi, a chael eu harwaen mewn modd gwyrthiol i'r America. Oddiwrth y Neph-

iaid hyn, medd yr hanes, y disgynodd cenedl yr Indiaid. Flynyddau lawer wedi eu sefydliad, dywedir hefyd iddynt ddigwydd cael gafael ar hen gôf-ysgrifau y Jarediaid, cenedl wedi myned ar ddifancoll, yr hon a ddaeth i'r America oddeutu amser adeiladu twr Babel. Yr hyn ddadguddiodd amrwyiol proffwydi i'r Jarediaid a'r Nephiaid, a mynegiadau dwyfol union-gyrchol ynghylch "fy ngwas, Joseph Smith," yr Apostol diweddar, sy'n gwneud i fynu sylwedd Llyfr Mormon.

Prif amcan, os nad unig amcan y twyll, oedd dyrchafu Joseph Smith i fod yn ben mawr a llywodraethwr yr eglwys; yn swyddau eraill yn cael eu llanw gan ddynion ag oeddent yn wasanaethgar i'w ewyllys ef, ac yn gyfranogion o'r yspail a ddeuai i mewn trwy yr huddoliaeth. Y mae dwy radd wahanol o urddolion eglwysig.

1. Offeiriadaeth Melchizedec, neu yr Arch-offeiriadaeth, yn gynnwysedig o Arch-offeiriaid ac henuriaid; 2. Yr Offeriadaeth Leiaf, neu yr Aaronaidd, yn gynnwysedig o esgobion, offeiriaidd, ysgawdwyr, a diaconiaid. Y blaenaf sydd i lywyddu yn materion ysbrydol yr eglwys; yr olaf a weinyddant ei hordinadau, a rëolant ei negesion tymhorol. Tri o'r Arch-offeiriaid a appwyntir yn lywyddion, i lywyddu dros holl eglwysi y byd, a gelwir hwynt y Lywyddiaeth Flaenaf (*First Presidency*).

Y mae hefyd is-lywyddiaethau, yn llywodraethu ar drefydd a thaleithiau, y rhai a elwir *Stakes*; ac yr oedd appwyntiad y *Stakes* yma mewn ardaloedd newydd yn Ngogledd America, yn rhoddi i Mr. Smith gyfleusdra ffafriol, fel mae's wedi sylwi, *i speculato* mewn "*town lots.*"

Mae areithiau y pregethwyr Mormonaidd yn llawn cyfeiriadau at yr ysgrifeniadau a'r athrawiaethau Cristnogol; yr hyn sy'n dueddol ddigon i ddyrysu a thwyllo meddyliau eu gwrandawyr annysgedig; ond os chwilir i mewn i'r honiadau haerllug sydd yn sylfaen i'w system, fe welir eu bod yn hynod wrthun a chabledduus. Nid yw yr ysgrifenydd wedi cael cyfle i ddarllen Llyfr Mormon, ac ni wyr pa un ai ydyw wedi ei gyhoeddi yn y Gymraeg ai peidio. Y mae tystion cyfrifol yn dywedyd fod y llyfr hwn o'r dechreu i'r diwedd yn llawn nodau o *forgery* a thywll. Benthyceir neu efelychir priod-iaith y Bibl drwyddo oll; ac pharth geiriau ac enwau, y mae yn benthyca oddiwrth amryw o'r icithoedd diweddar, yr hyn sydd yn dangos fod yr hwn a gymerir ei fod yn ysgrifenwr yr hen oesoedd gynt, yn feddiannol ar wybodaeth neillduol yr oes bresenol. Sumudir y gwrthddadl oddiwrth liw croen yr Indiaid cochion, mor wahanol oddiwrth eiddo yr Iuddewon, trwy haeru ddarfod i liw eu croen gael ei newid trwy wyrth yn gosp am eu pechodau. Sonir am bethau, pa rai, fe wyddys yn dda, nid oeddent wedi eu cael allan hyd yr amseroedd diweddar; megis, y cwmpas, &c.

Gwneir y proffwyd Nephi i ddywedyd, mewn cyfeiriad at y terfysg a gyfodwyd yn ei erbyn ar y fordaith tua'r America; "A bu wedi iddynt fy ngollwng yn rhydd, wele, mi gymerais *gwmpas, ac efe a weithiodd y ffordd y mynnwn iddo.*" Mae y twyllwr yma, fel mewn manau eraill, yn crogi ei hun trwy ei anwybodaeth. Rhaid ei fod anwybodus o'r ffaith, mai camoedd lawer o flynyddau wedi yr amser a briodolir i Nephi, a cafwyd allan gogwyddiad y nodwydd tua'r gogledd. Heblaw hyny, yr oedd yn llwyr anwybodus o wir ddefnydd y cwmpas yn Morwriaeth; onite, ni fuasai yn gwneud i Nephi ddywedyd, "ac efe [y cwmpas] a weithiodd y ffordd y mynnwn iddo." Dangosir nodau eraill o anwybodaeth a *forgery*, y rhai sydd yr un mor amlwg, megis, er siampl, fod y geiriau Groeg *Crist*, *Alpha*, ac *Omega*, yn cael eu defnyddio wrth ysgrifenu i'r Hebreaid uniaith, &c., heb un rheswm yn y byd am wneud felly, oddiwrth anwybodaeth y ffug-ysgrifenydd. Ond i beidio à gwnaed yr ysgrif yn rhy faith—Ni roddir un fantais i Formoniaeth nac un *esgus* dros y fath dwyll a nodwyd, o gydnabod fod amryw o'r ysgrifenwyr yn erbyn y Mormoniaid (y Methodistiaid Americanaidd yn enwedig) wedi dangos braidd llai o anwybodaeth na hwythau. Rhaid gadael Llyfr Mormon ar hyn o bryd, a Mormoniaeth hefyd. Feallai y gwelir yr hyn a ysgrifenwyd yn llawn ddigon am un Rhifyn o'r *Ymofynydd*. Ymdrechir mewn ysgrif ddyfodol, os rhoddir caniatâd, i ddychwelyd at y pwngc, er parhâu hanes a adawyd ar ei hanner, a chyflawni, os gellir, yr hyn adawyd yn ddiffygiol.

PHILALETHES.

## HANESION CARTREFOL A THRAMOR.

Y SENEDD.—TY YR ARGLWYDDI.

Gorph. 1.—Pan ddaeth yr ysgrif a bassiwyd gan Dy y Cyffredin, er ychwanegu nifer etholwyr yr Iwerddon, dan sylw, cynnygiodd Iarll St. Germans fod y bleidlais i gael ei chyfyngu i ddeiliaid o £12, yn lle i rai o £8. Ac wedi i Ardalydd Lansdowne roddi ar ddeall y byddai'r Weinyddiaeth, er mwyn passio yr ysgrif, yn foddlon i'r gwelliant a gynnygid, cynnygiodd Iarll Dessart welliant arall i gyfyngu'r bleidlais i rai yn talu £15 o rent. Ar ol cryn ddadleu o'i blaid ac yn ei erbyn, rhanwyd y Ty; cafwyd dros welliant Iarll Dessart 72; dros fesur y Weinyddiaeth, 50. Mwyrif yn erbyn y Weinyddiaeth, 22. Ac etto ar y 5ed o'r un mis maeddwyd y Weinyddiaeth ar yr un mesur gan Arglwydd Stanley.

*Addysgiaeth Wladwriaethol.*— Gorphenhaf 2. Mewn attebiad i sylwadau Iarll Harrowby, yn beio ar ymyraeth Arolygwyr y Llywodraeth â'r Ysgolion yn nglyn â'r Eglwys Sefydledig, dywedodd Ardalydd Lansdowne fod 533 o'r 689 ysgolion a gynnorthwyid y flwyddyn ddiweddaf, yn perthyn i'r Eglwys Sefydledig, a bod yr Eglwys yn cael £80 o bob £100 a roir allan i ddysgu y werin.

TY Y CYFFREDIN.

Hysbyswyd ein darllenwyr yn ein rhifyn diweddaf fod y Weinyddiaeth Dramor dan Arglwydd Palmerston, wedi iddi gael ei chondemnio gan y mwyrif yn Nhy yr Arglwyddi, i gael ail dreial yn Nhy y Cyffredin. Mehefin 24 dygodd Mr. Roebuck ei gynnygiad ymlaen, sef,—"Bod yr egwyddorion wrth ba rai yr ymddyga y Weinyddiaeth at alluoedd tramor, y fath a dueddant i ddal i fynu anrhydedd ac urddas y wlad, ac i barhau heddwch rhwng Lloegr a Chenhedloedd Tramor." Areithiwyd dros ac yn erbyn y cynnygiad am bedair noswaith. Teimid pwysigrwydd y ddadl trwy y wlad yn gyffredin, a disgwylid yn bryderus heb wybod pa beth a fyddai y penderfyniad. Darfu i Syr Robert Peel, Syr J. Graham, ac eraill o'r blaid hon, restru eu hunain y pryd hwn gyda gwrthwynebwyr y Weinyddiaeth. Felly hefyd Cobden a Syr W. Molesworth. Ennillodd Arglwydd Palmerston gydymdeimlad a chlod dyladwy trwy ei araeth hyawdl a nerthol mewn amddiffyniad o egwyddorion ei weinyddiaeth tramor. Pan ranwyd y ty, am 4 o'r gloch boreu dydd Sadwrn y 29ain, cafwyd fod 310 tros y Weinyddiaeth, yn ei herbyn 264. Mwyrif tros y Weinyddiaeth, 46. Ac felly y terfynodd un o'r brwydrau poethaf a mwyaf pwysig yn ei heffeithiau a fu ar lawr Ty y Cyffredin er ys dyddiau lawer.

Teimlir cryn ansicrwydd o barth ymddygiad dyfodol y pleidiau mewn canlyniad i farwolaeth ddisymwth Syr R. Peel. Gorph. 4. Yn y ddau dy o'r Senedd cymmerwyd sylw o farwolaeth Syr Robert gyda thynerwch a pharch dyledus a thristwch anarferol.

Cynnygiodd Argl. John Russell fod anghladd Syr Robert i fod yn gyhoedd, os byddai hyn yn foddhaol gyda theulu Syr Robert, sef bod dydd ei gladdedigaeth i fod yn ddydd gwyl gyffredinol. Mr. Goulburn, yn enw y teulu, a ddiolchodd am yr anrhydedd a gynnygid; ond fod Syr Robert wedi ysgrifenu ei ddymuniad i gael ei gladdu heb ddim rhwysg.

---

## CYFARFOD BLYNYDDOL UNDODIAID Y DEHEUBARTH.

Cynhaliwyd y cyfarfod uchod Mehefin y 27ain, yn Pantydefaid, Cerediglon. Yr oedd lluaws mawr wedi ymgasglu ynghyd yno. Am 3 o'r gloch y prydnhawn o'r blaen pregethodd Mr. O. Evans oddiwrth Ioan i. 41, a Mr. D. Lloyd, Caerfyrddin, oddiwrth Eph. ii. 8. Dydd Iau am 10 o'r gloch, dechreuwyd yr addoliad trwy ddarllen a gweddi, gan Mr. J. E. Jones, Penybont, a phregethodd Mr. J. Jones, Aberdâr, ar "Anghyfnewidioldeb egwyddorion yr Efengyl," oddiwrth Heb. xiii. 8. Pwngc y gynnadledd a ganlynodd, oedd, "Dyben dioddefaint Crist." Llefarwyd yn helaeth ar y pwngc gan Meistri J. E. Jones, Penybont, Titus Evans, O. Evans, Cefn, Lloyd, Caerfyrddin, a James, Gellionen. Am 3 o'r gloch y prydnawn pregethodd Mr. James, Gellionen, yn nhy cwrdd Lwynrhydowen, oddiwrth Heb. xii. Bydd y Cyfarfod Blynyddol nesaf yn Aberdâr, Mr. James, Gellionen, i breg-

ethu y bregeth. Y Cyfarfod Chwarterol nesaf a gynhelir yn Nghaeronen, ger Llanbedr-pont-Stephen. Cytunwyd fod yr un pwnc i fod dan ystyriaeth yn y gynnadledd, sef, "Diben dioddefaint Crist," a Mr. Owen Evans, Cefn, i bregethu.

## FFRAINGC.

Nid oes nemawr golwg y ceir tawelwch parhaus yn y wlad hon. Ymddengys fod ar lawer ofn ryw chwyldroad ofnadwy etto. Er nad yw gweinyddiaeth Louis Napoleon a'r mwyrif yn yr *Assembly* yn cyd-dynu yn wych, y maent yu cytuno a'u gilydd i gaethiwo rhyddid y Wasg yn enbydus. Yr oedd 386 yn pleidleisio dros y gyfraith gaethiwus, a 265 yn ei herbyn. Cytunwyd ar y 17eg o Orphenhaf, yn mron yn unfrydol, ar fod yr eisteddfod bresenol i ddarfod ar y 12fed o Awst, a bod yr *Assembly* i gyfarfod ar yr 11eg o Dachwedd nesaf. Yn y cyfamser bydd 25 o honynt i eistedd yn bwyllgor parhaus. Y mae 22 o'r rhai hyn eisioes wedi eu dewis, ac nid oes un o honynt yn perthyn i blaid y Bonaparteaid, yr hyn sydd wedi peri anfoddlonrwydd a gofid nid bychan i'r Llywydd.

## DENMARC.

Yn groes i ddisgwyliadau y mae'r rhyfel rhwng Denmarc a Holstein wedi torri allan o'r newydd. Y maent wedi ymfyddino yn erbyn eu gilydd, ac erbyn hyn, digon tebyg fod ymladd gwyllt a thywallt gwaed wedi cymeryd lle.

## AWSTRIA.

Y mae y Barwn Hainau, yr hwn a wnaeth ei hun mor hynod am ei greulonderau tuag at yr Hungariaid, wedi cael ei droi allan o'i swydd heb ond ychydig seremoni. Caiff amser yn awr, ond odid, i adolygu ei ymddygiad diweddar fel offeryn gormes-deyrn, ac i edifarhau. Ymddengys ei fod yn teimlo i'r byw y gwarth a roddir arno.

## AMERICA.

Mae Prof. Webster wedi cyfaddef iddo fwrddro Dr. Parkman yn ei weithfan *(Laboratory)*. Dywed i Dr. P. ddyfod i'w ystafell ef, yn ol ei gais, ar ddydd y mwrddrad i dderbyn yr arian oedd yn ddyledus iddo, a bod Dr. P. ar yr achlysur wedi defnyddio iaith gynhyrfus, a gwthio ei ddyrnau i'w ddanedd, a'i alw yn gelwyddwr, &c., ac iddo yntau yn ngwres ei nwyd a'i ynfydrwydd ei daro nes iddo farw yn y fan. Yna rhag ofn y canlyniadau a'r cywilydd iddo ddarnio a chuddio ei gorff, a llosgi peth o hono. Dywed yn ddifrifol na eddyliodd erioed yn mlaenllaw lofruddio Dr. Parkman. Gwneir ymdrechiadau taer i arbed bywyd Webster.

### MARWOLAETH Y PRESIDENT.

Y 9fed o Orphenaf, yn bur ddisymwth, bu farw General Taylor, President yr Unol Daleithiau. Yr oedd yn 65 mlwydd oed y noswaith y bu farw, ac wedi bod yn llanw ei swydd anrhydeddus am 16 mis. Bu yn dioddef oddiwrth y dolur a aeth ymaith a'i fywyd *(diarhœa)* blwyddyn i 'nawr. Yr Is-lywydd *(vice-president)* Mr. Fillmore sydd i lanw ei swydd ef hyd amser yr etholiad nesaf, yr un modd ag y daeth yr Is-lywydd Tyler i'r swydd ar farwolaeth General Harrison.

## RHUFAIN.

Y mae yr Ysgrifenydd Rhyfel wedi hysbysu yn nechreu'r mis hwn, fod ei Santeiddrwydd yn caniatâu i'r swyddogion hyny a anrhydeddwyd gan Frenin Naples am eu hymlyniad wrth y Pab, i wisgo yr arwyddnodau a roddwyd iddynt.

Y mae yr Ysgrifenydd hefyd wedi hysbysu fod ei Santeiddrwydd wedi gorchymyn sefydlu byddin o 8,000 o heddgeidwaid, i'w rhanu yn bedair dosran. Y mae nifer o wyr dewisol, y rhai a fuont mewn gwasanaeth mewn byddin arall wedi cael eu cofrestru i'r pwrpas, a gwahoddir ewyllysgaryddion ieuainge i gofrestru eu hunain i'r un dyben.

## GROEG.

Y mae adroddion o Groeg yn mynegu fod môr-ladron ar gynnydd dirfawr yn yr holl daleithiau. Dinystrir pentrefi cyflawn, carir y merched ymaith, camdrinir enwog gwyr am eu gwladgarwch, neu ynte, rhwymir hwy i ymddwyn mewn rhyw ddull penodol drwy orfod. Ymosododd amryw bersonau a wisgant yr unweddwisg *uniform* frenhinol ar ddau bendefig Seisnig yn Thebes, a lladratas-

ant 700 o ddolars oddiarnynt. Ymosodwyd ar ysgafnlong frenhinol yn nghamlas Tricon gan fôr-ladron, pan laddwyd y swyddog, îs-swyddog, a thri o ddynion, a niweidiwyd tri arall; a chyflawnwyd un o'r llofruddiaethau a'r lladradau echryslonaf o fewn ychydig latheni i Athen ganddynt.

## RWSSIA.

Y mae llythyr o Posen, dyddiedig yr 8fed o'r mis hwn, yn mynegi fod y cholera a chlefydon yn gwneuthur hafog ddychrynllyd yn mhlith y milwyr Rwssiaidd yn Poland. Y mae nifer mawr o wyr wedi eu hanfon, o'r herwydd, o'r trefi i'r wlad. Dywedid hefyd fod y "pla gwyn" wedi torri allan yn mysg y milwyr a'r trigolion.

## COLLIAD Y LLESTR MONMOUTH, O GASNEWYDD.

Yr ydys wedi derbyn hysbysiad fod y llong uchod, pan oedd yn agos i gulfor Gibraltar, wedi cael rhedeg iddi gan ryw long ddyeithr gyda'r fath rym nes y torwyd ymaith saith o'r planciau, heblaw dinystrio un o'i chychod. Yr oedd y llestr yn ymlenwi o ddwfr mor gyflym fel y cafodd y dwylaw gryn orchest i achub eu bywydau yn y cychod; ac yr oedd chwaer y cadben, yr hon oedd ar y bwrdd, at ei gwasg mewn dwfr yn y caban, cyn y llwyddwyd i'w chael allan. Aeth y llong ddyeithr, yr hon nis adnabuwyd ei henw yn y cythrwfl, ymaith heb roddi un cymhorth.

## CRYBWYLLIAD AM LYFR.

Yr ydym yn deall fod *Cobbett's Cottage Economy* wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg er's ychydig amser yn ol, ac yn fuan i ymddangos trwy y wasgc dan yr enw *Bwth Drefniant*. Bydded i bawb a hoffant gael y llyfr buddiol, ymofyn am dano gyda brys. Enw y cyhoeddwr yw Thomas D. Thomas, Llanarth, Ceredigion.

## MARWOLAETHAU.

Gorphenhaf 1af, yn 21 mlwydd oed, *Dafydd*, mab hynaf Mr. Evan Evans, Maesmynach, Ystrad, Ceredigion, er mawr alar i'w riaint a'i geraint oll. Y dydd Mercher canlynol ymgasglodd tyrfa luosog i'w gludo i dy ei hir gartref. Ar yr achlysur, cyn cychwyn, pregethodd y Parch Peter Joseph yn effeithiol iawn oddiwrth Heb. ix. 27. Yna hebryngwyd ei ran farwol i fynwent y plwyf, lle yr erys yn dawel hyd ddydd barn.

Gynnau yn llawn gogonedd,—y gwawriai
Fel blaguryn rhinwedd;
Ond heddyw mae'n wyw ei wedd,
Yn y gweryd yn gorwedd.

Gorphenhaf yr 8fed, *John*, mab hynaf Mr. Daniel Hughes o'r Hendy, plwyf Cilrhedin, swydd Gaerfyrddin, yn mlodau ei ddyddiau, yn 29 mlwydd oed. Claddwyd ef ar y dydd Mercher canlynol, yn mynwent Panteg, yn agos i'w anneddle. Ar yr achlysur pregethodd y Parch. J. Davies, Llwynrhydowen, yn y ty, oddiwrth Job. xiv. 1, 2, ac yn y ty cwrdd pregethodd y Parch. Thomas Griffiths, Caeronnen, oddiwrth Jer. xiv. 3, y rhan flaenaf. Yr oedd llawer iawn o ddynion o bob enwad trwy y cymmydogaeth wedi casglu yn nghyd er dangos eu parch, nid yn unig i berthynasau y marw, ond hefyd i brofi fod parch mawr yn ddyladwy i'r trengedig. Gadawodd wraig ieuanc i alaru ar ei ol, nid yn unig uwch ben ei fedd, ond uwch ben plentyn ymddifad byw, 8 mis oed. Perchid ef yn fawr gan bawb a'i hadwaenent, yn neilldnol gan Eglwys Undodaidd Panteg, i'r hon yr oedd ei dad yn un o'r Henuriaid mwyaf parchus. Yn hir y galara ei gyfeillion a'i berthynasau am ei golli.

T. G.

Gorph, 24ain, yn nhy ei chwaer yn Cwmafon, yn 31 oed, bu farw *Lettice Lewis*, Casnewydd, Penybont. Yr oedd yn ddynes dawel, diwyd a synhwyrol; o feddwl ymofyngar, ac yn dwyn mawr sel dros gretydd Iesu Grist. Bu dros amryw flynyddau yn aelod hardd gyda'r Bedyddwyr Calfinaidd. Y blynyddau diweddaf tueddwyd hi i dalu sylw i'r ddadl Undodaidd, a ddaeth oddiar argyhoeddiad i gofleidio yr athrawiaeth o "Un Duw, a hwnw'n Dad." Byddai yn coffa yn ddiolchgar am ymddiddanion ei brawd ymadawedig (David Lewis, un o'n Gohebwyr a'n cyfeillion) fel y moddion trwy ba rai y gwelodd Duw yn dda i beri i'r goleuni dorri ar ei meddwl. Ymadawodd a'r fuchedd hon yn mhen blwyddyn ar ol ei brawd, "gan huno yn yr Arglwydd." I.

### SYR ROBERT PEEL.

Gorphenaf yr 2il. bu farw Syr Robert Peel, am oddeutu 11 o'r gloch o'r nos. Parodd y newydd o'i farwolaeth syndod a thristwch cyffredinol. Nid yw y syndod i'w ryfeddu, na'r tristwch chwaith. Braidd na feddyliem nad mewn breuddwyd yr ydym yn cof-nodi yr amgylchiad galarus ac annisgwyliadwy. Pwy feddyl'sai fod gwr ag oedd mor fawr, mor ddoeth, mor ddoniol, mor ddylanwadol, y blaenaf yn mhlith cynghorwyr a cholofnau gwladwriaeth—i gael ei symnd mor fuan, mor ddisymwth o blith y byw! Dyhunir ni i weled pa mor ddarfodedig ac ansicr yw mawredd daearol ar y goreu. Nos Wener yr 28ain o Fehefin, neu yn hytrach boreu dydd Sadwrn y 29ain yr oedd yn ei le yn Nhy y Cyffredin, a thua 600 o foneddwyr y deyrnas yn dwys-wrandaw ar ei araeth hyawdl yn mater y weinyddiaeth dramor.

Prydnawn yr un dydd aeth allan, yn ôl ei arfer, i farchogaeth; ac wedi galw heibio i balas y Frenhines, yr oedd yn myned i fynu i Constitution Hill, pan y cyfarfu â gwas boneddwr yn marchogaeth ceffyl gor-nwyfus, yr hwn a barodd i'w geffyl yntau i neidio a thaflu ei draed ôl ei fynu, nes disgyn o Syr Robert ar ei ben i'r llawr, a syrthio o'r ceffyl arno, nes ei niweidio yn fawr iawn. Yr oedd meddyg enwog yn digwydd bod yn agos i'r fan, yr hwn a roddodd bob cynhorthwy iddo, a chludwyd ef i'w dy ei hun yn *Whitehall Gardens*, yn ngherbyd boneddiges ag oedd yn myned heibio ar y pryd, a chafodd bob cymhorth meddygal a feddai Llundain Yr oedd ei ysgwydd wedi ei niweidio i'r fath radd gan y codwm fel ag yr oedd yn anniodd-efol ddolurus, ac ymddengys fod un o'i asenau wedi ei gwthio hyd yn nghanol ei ysgyfaint. Nid oedd un help meddygol iddo. Aeth yn waeth o ddydd i ddydd ac o awr i awr hyd nes y bu farw y nos Fawrth ganlynol.

Bu yn meddiant o'i synwyrau gan mwyaf o'r amser. Ffarweliodd yn dyner ac yn serchus iawn a'i wraig, a'i blant, a'i geraint. Bu Esgob Gibraltar gydag ef o ddeutu awr, a gweinyddodd y cymmun iddo ychydig cyn ei farwolaeth. Yn ôl ei ddymuniad claddwyd ef gyda'i dad a'i fam yn Drayton Manor. Nid ydys yn cofio am y fath deimlad cyffredinol am farwolaeth pendefig ag a ddangoswyd trwy y wlad yn gyffredin, fac a deimlir yr awrhon gan bob gradd am farwolaeth Syr R. Peel. Yr oeddem yn bwriadu rhoddi byr hanes o fywyd, &c., y gwladwr enwog; ond ni chaniateir lle y pryd hwn. Amcanwn ei roddi yn y Rhifyn nesaf.

---

"Oer iawn iâs i'r ynysoedd—yw toi pen
Syr Robert Peel bythoedd;
Try'n isel y teyrnasoedd
O'i fyn'd ef,—eu henaid oedd.

"Gollyngwyd esgyll llongau,—a bwriwyd
Bara yn fyrddeidiau,
A rhoddwyd gwledd Rhyddid glau,
O'i fawr ddawn, i fyrddiynau."

---

### DUG CAMBRIDGE.

Y Tywysog Adolphus Frederick, Dug Cambridge, seithfed mab Sior III, a'r ieuengaf, a fu farw Gorph. 9fed, yn 76 mlwydd oedd. Ganwyd ef Chwer. 24, 1774. Yn ei 13eg flwydd derbyniwyd ef yn fyfyriwr yn Mhrifathrofa Göttingen. Yn 1793 gwasanaethadd dan ei frawd, Dug York, yn y rhyfelgyrch yn erbyn Dunkirk. Yn 1807 galwyd ef i blith cynghorwyr y brenin ei dad, dan yr enw Dug Cambridge, Iarll Tipperary a Baron Culloden. Yn 1813 appwyntiwyd ef yn Rhaglaw Hanover; ac yn 1818 ymbriododd yn *Cassel* â merch ieuengaf y Landgrave Frederick, Ei blant ydynt y Tywysog George, yr hwn a anwyd yn Hanover, Mawrth 26ain, 1819, yn awr Dug Cambridge; a dwy ferch, un yn briod â Dug Mecklenburg Strelitz, a'r llall, y Dywysoges Mary, yr hon nid yw yn briod. Enillodd y Dug air da iddo ei hun yn ystod ei raglawiaeth yn Hanover. Dychwelodd i'r wlad hon yn 1837, pan ddarfu i Frenin Hanover ddyfod i'r frehainiaeth. Yr oedd yn bur hyddysg mewn Peroriaeth, ac yn hynod haelionus a pharod i gynhorthwyo yr holl gymdeithasau dyngarol. Claddwyd ef mewn modd gweddaidd a dirwysg yn eglwys Kew, ger Llundain.

# BARDDONIAETH.

## AT WASANAETH YR YMOFYNYDD.

Tyred allan Ymofynydd,
Dos yn ddiflin ar dy daith,
Chwilia'n fanol fryn a bronydd,
Drwy bob cwr o'r ddaear faith;
Byth na charia wyneb rhagrith,
D'wed y gwir beth bynag ddêl
Ti gai dal i'th ddwylaw 'n ddilith,—
Ti gai goron yn ddigêl.

Gwela'r wawr yn dechreu torri,
Boreu hyfryd hardd a ddaw,
Clywa'r edriod yn cyd-odli,
Yn y llwyni ar bob llaw:
Gwela'r hen ddefodau cnawdol,
Nawr yn dechreu colli'r dydd;
Ar dy daith gwna fod yn wrol;
Myn y caeth a'i draed yn rhydd.

Ydwyt gwedi gwneuthur llawer
'Rwyf yn deall wrth dy waith;
Y mae rhagor ar dy gyfer,
Cyn it' gyrhaedd pen dy daith;
Ond er amled dy elynion
Ti gai nerth bob mynyd awr;
Cofia chwalu pob dadleuon
Cyn it' daflu'th arfau' lawr.

Torri wnaethost Bechod Gwreiddiol—
Hyn a dystiaf—lawr i'r dwst;
Ar hen arfaeth ddiamodol
Er mor rhyfedd oedd ei ffrwst;
Ac athrawiaeth fawr y Drindod
Gwnest ddiwreiddio hon or bôn;
Hon fu'n destyn hir fyfyrdod,
Gwedi Seinio gyda Shon.*

Gyrae'st ffwrdd y gosb ddiamcan
O'r gym'dogaeth lle'r wy'n byw;
Gwnest yn hollol nodi allan
Ddyben cosb ar ddynol ryw;
Y mae'r cerydd o'r un cariad
Er gwellhad i bawb o'r Plant,
A'r diddanwch mwyaf melus—
Er mwyn tynu'r drwg i bant.

Gwnaethost chwalu'r twyll ddych'-
Sydd yn dallu llygaid dyn, [mygion
Dwyn i'r golau rai dirgelion,
Fel cenhadwr Duw ei hun;
Dygaist i'r goleuni eiriau
Bur orch'mynion Iesu mad
Ysgafn gefaist yn glorion
Ond a ddysgwyd gan y Tad.

Hen athrawiaeth y cyfrifiad,
Sydd ynglyn a pethau twyll,
Hon wna groesi dynol deimlad—
Gwelir hyn gan lygaid Pwyll,
Dyma golofn fawr sigledig,
Dan ei mhuriau bodor sail;
Hon a gwymp ar fyr mae'n debyg,
Gwela'i crynu fel y dail.

* Calfin.

Gwel y maesydd oll yn wynion.
Y mae'r yd yn aeddfed nawr,
Dos i mofyn cynhorthwyon
I gael torri hwn i lawr;
Paid ag aros un mynydyn
Yma'n segur ar dy daith,
Dos ymlaen bob dydd yn ddiflin,—
Cofia gymaint yw dy waith.

Tithau ddiogyn brwnt dy agwedd
Mae'n llawn bryd i ti ddeffroi;
Y mae gwaith fel pawb yr unwedd;
It' ddigonedd gwedi roi.
Treia ganfod y morgrugyn—
Pa mor ddiwyd ydyw ef,
Rhaid i tithau weithio'n ddiflin,
Neu llwyr golli teyrnas Nef.

O paham mae dysgedigion
Nawr mor fusgrell yn eu hoes!
Y mae hyn yn clwyfo'm calon—
Rhydd i'r teimlad chwerw loes.
Gwnewch roi parch i'r Ymofynydd,
Cofiwch sefyll yn ei blaid,
Rhoddwch ebran iddo'n ebrwydd,
Y mae'n eithaf angenrhaid.

Y mae cynwrf yn y gwersyll,
Mae'n llawn bryd iti ddeffroi,
Rlawer o'u Cornelau tywyll
Sydd yn barod gwedi troi,
Rhai sydd eto'n wan ag efrydd
Nawr yn aros wrth y Porth,—
Disgwyl maent i'r Ymofynydd
Roddi iddynt ran o'i dorth.

Nawr fe wnaeth yr Ymofynydd
Roddi lefain yn y toes,
Y mae goleu ar ei gynnydd—
Eglur yw yn nyddiau 'n hoes
Y mae'r amser yn prysuro;
Daw pob gwyrni lawr yn garn
A phob un i chwilio'i gredo
I'r gwirionedd pur bob darn.

Cyd ymro'wn, mae'r dydd yn darfod—
Dyma'r unig dymor hau,
Nid yw'r daith ond un diwrnod,
Rhwng y dioddef a'r mwynhau;
Yn y bedd ar fyr y byddwn,
Lle rhaid aros dro yn fud;
Ond o garcher angeu codwn,
'Ryddid clau, goleuni clyd.

Ioan Triphlyg.

## ENGLYN.

Heddyw cyn y wawr gynnyddol—trengodd
Llu trwy angeu mawrol;
Er hyn dyma ni ar ôl,
Byw ydym, Iôr arbedol.

*D. Evans, Argraffydd, Caerdydd.*